

**DYDD MERCHER, 14 MEHEFIN 2023**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

**YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD AML-LEOLIAD Y CYNGOR SIR A GYNHELIR YN SIAMBR - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD MERCHER, 21AIN MEHEFIN, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-  
[HTTPS://CARMARTHENSHERE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME](https://carmarthenshire.public-tv/core/portal/home)

Swyddog Democrataidd:	Kevin Thomas
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224027
E-bost:	<a href="mailto:kjthomas@sirgar.gov.uk">kjthomas@sirgar.gov.uk</a>

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

# AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)
5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR:
  - 5.1 10FED MAI 2023 5 - 10
  - 5.2 24AIN MAI 2023 11 - 22
6. ARGYMHELLION DRAFFT - ADOLYGIAD CYMUNEDOL YN SIR GAERFYRDDIN 23 - 32
7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATERION CANLYNOL:-
  - 7.1 POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO EIDDO 33 - 74
8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWDYD AR Y
  - 8.1 24AIN EBRILL 2023 75 - 86
  - 8.2 22AIN MAI 2023 87 - 96
9. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-
  - 9.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR ALUN LENNY AC EDWARD THOMAS  
"CYLLID BRYD AR GYFER TYLLLAU YN Y FFYRDD

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn datgan bod cyflwr dirywiol llawer o ffyrdd yn ein sir yn rhan o broblem aciwt ledled y DU a achosir gan dangyllido awdurdodau lleol yn y tymor hir gan lywodraethau Ceidwadol olynol y DU ers 2010.

Mae'r Cyngor yn nodi bod y £200m ychwanegol a ddyrannwyd yn ddiweddar gan San Steffan tuag at y 'gronfa dyllau' yn ffracsiwn o'r amcangyfrif o £14b sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio ffyrdd lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi gyda braw adroddiad diweddar gan Gynghrair Diwydiant Asphalt sy'n honni bod gan bron i un rhan o bump o'r ffyrdd a reolir gan gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr ddisgwyliad oes o lai na phum mlynedd, a bydd angen eu tynnu, eu hatgyweirio a'u hailwynebu.

Mae'r cyngor hwn felly yn galw ar:

- Llywodraeth y DU i ddechrau cynllunio nawr sut i ddyrannu o leiaf £14b yn ei chyllideb nesaf fel mesur brys i alluogi cyngorau lleol i fynd i'r afael â'r dirywiad difrifol hwn yn ein seilwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, cyn y gaeaf nesaf;
- Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl gyllid a ddyrennir tuag at y hyn drwy fformiwla Barnett yn cael ei drosglwyddo i gyngorau sir, ac i ddargyfeirio peth o'r arian a arbedir drwy ddileu cynlluniau ffyrdd newydd yng Nghymru yn ddiweddar i lawr i'r cyngorau i'w galluogi i gynyddu'r gwaith o atgyweirio'r ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd presennol".

## **10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

### **10.1 CWESTIWN GAN CHARLIE EVANS I'R CYNGHORYDD EDWARD THOMAS - YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH.**

"Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn dod â'r Cynllun Argyfwng Bysiau i ben ar 24 Gorffennaf. Mae corff y diwydiant, Coach and Bus Operators Cymru, sy'n cynrychioli cwmnïau bach, wedi mynegi pryderon yn y gorffennol y byddai 65% i 100% o'r gwasanaethau'n cael eu torri.

Byddai hyn yn cael effaith ddinistriol ar ein cymunedau, gan olygu na fyddai ein trigolion mwyaf agored i niwed yn gallu defnyddio canol ein trefi a'n pentrefi mor rhwydd ac na fyddai gweithwyr yn gallu cyrraedd y gwaith mor rhwydd, a byddai'n cynyddu traffig ceir a thagfeydd yn ein cymunedau. Ymddengys fod hyn yn hollol groes i strategaethau net sero a thrafnidiaeth gyhoeddus Cytundeb Cydweithio Llafur a Phlaid Cymru.

Pa waith cynllunio - ariannol, gweithredol a logistaidd - y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei wneud i sicrhau bod gennym yr un lefel o wasanaethau bysiau ledled Sir Gaerfyrddin ar ôl 24 Gorffennaf?"

## **11. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

## **12. COFNODION ER GWYBODAETH YN UNIG:-**

**12.1 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 27 EBRILL 2023**

**12.2 PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL - 3 MAI 2023**

**12.3 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG - 5 MAI 2023**

**12.4 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - 15 MAI 2023**

**12.5 PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD - 15 MAI 2023**

**12.6 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 25 MAI 2023**



## Y CYNGOR SIR

10 MAI 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd R.E. Evans (Cadeirydd)

### Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	P. Cooper	C.A. Davies	B. Davies
G. Davies	H.L. Davies	L. Davies	T. Davies
L.D. Evans	N. Evans	S. Godfrey-Coles	T.M. Higgins
J.K. Howell	P. Hughes-Griffiths	J.D. James	R. James
G.H. John	H. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis
A. Leyshon	K. Madge	M. Palfreman	B.D.J. Phillips
D. Price	E. Rees	B.A.L. Roberts	E. Skinner
D. Thomas	G.B. Thomas	M. Thomas	J. Tremlett
A. Vaughan Owen			

### Cynghorwyr (Yn rhithwir):

L.R. Bowen	K.V. Broom	J.M. Charles	M.D. Cranham
D.M. Cundy	S.A. Curry	A. Davies	W.R.A. Davies
T.A.J. Davies	C. Davies	L.M. Davies	S.L. Davies
M. Donoghue	A. Evans	D.C. Evans	H.A.L. Evans
W.T. Evans	A.D. Harries	J.P. Hart	P.M. Hughes
M. James	J.P. Jenkins	B.W. Jones	A.C. Jones
D. Jones	G.R. Jones	A.G. Morgan	D. Owen
S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavone	J. Seward	H.B. Shepardson
R. Sparks	E.G. Thomas	F. Walters	P.T. Warlow
D.E. Williams	J. Williams		

### Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr;  
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;  
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;  
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;  
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;  
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd;  
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;  
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau;  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;  
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;  
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

### Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau;  
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:10yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Davies, N. Lewis, a D. Nicholas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i Gydymaith, y Cynghorydd Nysia Evans, wedi bod i'r Arddwest ym Mhalas Buckingham yn ddiweddar yn y cyfnod cyn Coroni'r Brenin.
- Bu i'r Cynghorydd Emyr Rees longyfarch 2 dîm o fewn ward Glanaman am eu llwyddiant ym maes chwaraeon. Clwb Rygbi'r Aman dan 15 oed, a enillodd Gwpan GMG Sir Gaerfyrddin a Chlwb Rygbi Cwmaman dan 15 oed a enillodd Gwpan Cynghrair Iau Gorllewin Morgannwg. Mynegwyd gair o werthfawrogiad i'w tîm hyfforddi ac i'r gwirfoddolwyr.
- Bu i'r Cynghorydd Rob James a'r Cynghorydd Palfreman longyfarch y Cynghorydd Rob Evans a'i Gydymaith, y Cynghorydd Nysia Evans ar gynnal Cinio Elusennol llwyddiannus ar noson y 29ain o Ebrill 2023 a gododd swm sylweddol o arian er budd dwy elusen werthfawr sef Ambiwylans Awyr Cymru a Hosbis Tŷ Bryngwyn, Llanelli.
- Ar ôl cwblhau ymchwiliad llawn dros gyfnod o 10 mis ynghylch digwyddiad ddigwyddodd yn ystod hyfforddiant anffurfiol, ymddiheurodd y Cynghorydd Dorian Phillips yn ddiffuant i aelodau'r Cyngor am y digwyddiad.
- Mynegodd y Cynghorydd Glynog Davies ei longyfarchiadau i Ysgol Coed Cae, Llanelli ar gael Adroddiad Arolygu ardderchog gan Estyn. Estynnwyd gair o werthfawrogiad i'r Pennaeth, y staff a'r dysgwyr am eu hymdrechion i gael adroddiad cadarnhaol.

## 4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi cael gwybod am unrhyw gyhoeddiadau.

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR Y 19 EBRILL 2023

Dywedwyd y dylai datganiad o fuddiant y Cynghorydd M. James ar gyfer eitem 10.1 - Polisi Cartrefi Gwag - Ein Dull O Ddefnyddio Cartrefi Gwag Unwaith Eto fod fel a ganlyn:-

'Yn debygol o etifeddu tŷ a allai fod yn wag yn ystod cyfnod y polisi.'

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023 yn gofnod cywir, yn amodol ar y newid uchod.**

## 6. **RECRIWTIO I SWYDD PENNAETH SEILWAITH YR AMGYLCHEDD (PENODIAD PARHAOL)**

Cafodd y Cyngor adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, a oedd, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014 yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ynghylch recriwtio ar gyfer penodi i'r swydd Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol yn barhaol. Atodwyd y Proffil Swydd, y Fanyleb Person a'r hysbyseb swydd i'r adroddiad i'w hystyried.

Hysbyswyd y Cyngor, yn dilyn penodi i swydd y Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith ym mis Tachwedd 2022, fod yr Awdurdod bellach wedi cael cyfle i adolygu effeithiolrwydd y trefniadau dros dro presennol a oedd wedi bod ar waith, ynghyd ag ystyried cynllunio olyniaeth yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd ym mis Medi eleni. Roedd y penodiad arfaethedig yn cyfuno swydd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyrdd a Phennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff. Byddai gan y swydd newydd fwy o ffocws strategol a byddai'n gofyn am strwythur priodol oddi tani i sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcanion strategol.

Nododd yr Aelodau y byddai'r hysbyseb gyflawn ar dudalen recriwtio'r Cyngor a byddai fersiwn gryno yn cael ei rhoi ar lwyfannau hysbysebu neu ar y cyfryngau gan gyfeirio darpar ymgeiswyr at dudalen recriwtio Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, gymeradwyo'r Proffil Swydd, y Fanyleb Person a'r hysbyseb swydd ar gyfer penodi'n barhaol i'r swydd Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.**

## 7. **YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

### 7.1. **RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR SEAN REES A MICHAEL CRANHAM**

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cyngorwyr Sean Rees a Michael Cranham:-

"Mae 9863 o bobl sydd wedi goroesi strôc yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac mae 47% o'r rheiny'n byw yn Sir Gaerfyrddin. 'Mae'r Gymdeithas Strôc wedi darparu 'Gwasanaeth Goroesi Strôc' ar draws tair ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda ers dros ddegawd.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r cyllid ar gyfer hyn hyd yma wedi bod drwy'r Bwrdd Iechyd ac yna mae'r Cyngor Sir wedi bod yn ychwanegu at y swm hwn. Bellach mae'r Cyngor Sir wedi newid ei gyfraniad ariannol er mwyn canolbwyntio'n fwy ar atal strôc.

Ar gyfer 2023/24, mae'r Gymdeithas Strôc wedi cael gwybod y byddant yn cael yr un dyraniad cyllid â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol, ac felly ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw arian ychwanegol i dalu am y cronfeydd a ddarparwyd yn y gorffennol gan yr Awdurdod Lleol. Yn ogystal, mae'r holl wasanaethau eraill ar gyfer bywyd ar ôl cael strôc a

gomisiynwyd ledled Cymru yn cael eu hariannu'n llawn gan y Byrddau Iechyd.

Felly rydym fel Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn i Fwrdd Iechyd Hywel Dda roi sicrwydd ar frys i'r rhai sydd wedi goroesi strôc, eu teuluoedd, a'u gofalu, na fydd unrhyw effaith ar ddarparu'r 'Gwasanaeth Goroesi Strôc' yma yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol."

Eiliwyd y cynnig.

Rhodddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau didwyll o blaid y Cynnig gan aelodau yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol.

### **PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.**

#### **8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

#### **9. CYFLWYNO DEISEB**

Dyweddodd y Cadeirydd wrth Aelodau'r Cyngor fod y ddeiseb ganlynol a gyflwynwyd gerbron y Cyngor mewn perthynas â'r toiledau yn Harbwr Porth Tywyn yn un o swyddogaethau'r Cabinet:-

"Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin weithredu ar unwaith i gynllunio, i ariannu ac i adeiladu toiledau yn nwyrain Harbwr Porth Tywyn ac yng ngorllewin Harbwr Porth Tywyn. Deiseb i unioni'r diffyg toiledau cyhoeddus digonol a hygyrch yn Harbwr Porth Tywyn."

Yn unol â 10.16 o Gyfansoddiad y Cyngor, roedd y deisebydd wedi dewis cyflwyno'r ddeiseb yn ffurfiol i'r Cabinet ac felly nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Yn unol â'r Gyfansoddiad, rhodddwyd cyfle i'r Cyngor drafod y mater ac yna cyfeirio'i drafodaethau at y Cabinet.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r ddeiseb.

Rhodddodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth wybodaeth i'r Cyngor ynghylch cyfrifoldeb yr Awdurdod o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a dywedodd ei fod yn gohebu â'r deisebydd yn uniongyrchol ac y byddai'n darparu ymateb llawn yng nghyfarfod y Cabinet.



Wrth gydnabod bod Porth Tywyn yn un o nifer o ardaloedd lle'r oedd y gymuned leol wedi nodi ei bod yn dymuno cael gwell cyfleusterau a bod angen y cyfleusterau hyn arnynt, a gefnogwyd hefyd gan y ddeiseb, cydnabuwyd y byddai gwella darpariaeth y toiledau cyhoeddus ym Mhorth Tywyn yn gofyn am ateb tymor byr ynghyd â chynllun tymor canolig a thymor hir a fyddai'n cael ei ddatblygu trwy weithio gyda phartneriaid allweddol yn yr ardal. Roedd trafodaethau ynghylch cael ateb tymor byr ar unwaith ar y gweill.

**PENDERFYNWYD** derbyn y ddeiseb a'i chyflwyno at sylw'r Cabinet i'w hystyried.

**10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan yr Aelodau.

**11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 11.1 – 11.6 ar gael i'w gweld er gwybodaeth ar wefan y Cyngor.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## DYDD MERCHER, 24 MAI 2023

**YN BRESENNOL:** y Cynghorydd R.E. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

S.M. Allen	K.V. Broom	J.M. Charles	D.M. Cundy
C.A. Davies	T.A.J. Davies	B. Davies	G. Davies
H.L. Davies	L. Davies	S.L. Davies	T. Davies
M. Donoghue	L.D. Evans	N. Evans	W.T. Evans
S. Godfrey-Coles	J.P. Hart	T.M. Higgins	J.K. Howell
P.M. Hughes	P. Hughes-Griffiths	M. James	R. James
G.H. John	A.C. Jones	D. Jones	G.R. Jones
H. Jones	A. Lenny	N. Lewis	K. Madge
D. Nicholas	D. Owen	M. Palfreman	B.D.J. Phillips
D. Price	E. Rees	B.A.L. Roberts	E. Skinner
D. Thomas	E.G. Thomas	G.B. Thomas	M. Thomas
J. Tremlett	A. Vaughan Owen		

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

L.R. Bowen	M.D. Cranham	S.A. Curry	A. Davies
W.R.A. Davies	C. Davies	L.M. Davies	A. Evans
D.C. Evans	H.A.L. Evans	A.D. Harries	J.D. James
J.P. Jenkins	B.W. Jones	M.J.A. Lewis	A.G. Morgan
S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavone	J. Seward	H.B. Shepardson
F. Walters	P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol;  
 J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;  
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;  
 A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith;  
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;  
 P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);  
 G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;  
 E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;  
 S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;  
 L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;  
 M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;  
 M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aeolodau;  
 R. Morris, Swyddog Cefnogi Aeolodau.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00 yb - 11.30 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, K. Davies, A. Leyshon a R. Sparks.

## **2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## **3. MATERION PERSONOL / CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD YMADAWOL**

Croesawodd y Cynghorydd Rob Evans, sef y cadeirydd a oedd yn ymddeol, westeion nodedig, Cynghorwyr, staff a ffrindiau i'r cyfarfod. Soniodd am ei flwyddyn yn y swydd a'r digwyddiadau a'r dathliadau roedd wedi'u mynychu gyda'i gydymaith, Mrs Joyce Williams.

Diolchodd y Cadeirydd oedd yn Ymddeol i'r Prif Weithredwr, Wendy Walters, Linda Rees-Jones a Gaynor Morgan am eu cyngor a'u harweiniad proffesiynol, a staff yr awdurdod a oedd wedi cefnogi gwaith y Cadeirydd gan gynnwys ei waith i godi arian ar gyfer Hosbis Tŷ Bryngwyn ac Ambiwylans Awyr Cymru. Yn ddiweddar roedd wedi cyflwyno siec i'r ddwy elusen am £2,500.00 yr un. Diolchodd i'w yrrwr, Jeff Jones, ac i Eira Evans am ei chefnogaeth broffesiynol a phersonol, wrth drefnu ei ddigwyddiadau a gofalu bod pob dim yn mynd yn hwylus bob amser. Talodd deyrnged i'w gydymaith, Mrs. Nysia Evans Charles-Davies, a oedd wedi bod wrth ei ochr dros y 12 mis diwethaf a diolchodd yn ffurfiol iddi am ei chefnogaeth. Yn olaf, dymunodd yn dda i Ddarpar Gadeirydd y Cynghorydd Louvain Roberts a'i chymar, Mrs Vanessa Rees, yn ei blwyddyn yn y swydd.

## **4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

## **5. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24**

**Cynigiwyd gan y Cynghorydd R. Evans ac eiliwyd gan y Cynghorydd J. Tremlett a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd B.A.L. Roberts yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2023/24.**

Llongyfarchodd y Cynghorydd R. Evans y Cynghorydd Roberts ar ei hetholiad.

Gwnaeth y Cynghorydd Louvain Roberts ei datganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol.

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth wrth ei phenodi'n Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at ei blwyddyn yn y swydd yn cynrychioli'r Cyngor. Talodd y Cynghorydd Roberts deyrnged hefyd i'r Cadeirydd oedd yn Ymddeol, y Cynghorydd R. Evans, a chyflwynodd Grogdlws Cyn-gadeirydd iddo.

Talwyd teyrngedau i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, y Cynghorydd Jane Tremlett, Arweinydd y Grŵp Annibynnol, a'r Cynghorydd Rob James, Arweinydd y Grŵp Llafur. Talodd y Dirprwy Brif Weithredwr, ar ran y Prif Weithredwr, nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd salwch, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, deyrnged hefyd i'r Cadeirydd oedd yn ymddeol.

## 6. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Price ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths a PHENDERFYNNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Handel Davies yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2023/24.

Arwisgwyd y Cynghorydd Handel Davies â'r Gadwyn Swyddogol gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Louvain Roberts, a gwnaeth ei ddatganiad yn derbyn y swydd. Mynegodd yr Is-gadeirydd ei werthfawrogiad i'r Cyngor ar ei benodiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor nad oedd Cydymaith yr Is-gadeirydd, Mrs Margaret Davies, yn gallu bod yn bresennol ac y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i gadwyn y Cydymaith gael ei hanfon ati.

Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Is-gadeirydd a'i Gydymaith ar eu penodiadau.

## 7. DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd yr Arweinydd ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor am y cyfnod 2022/23 [ynghlwm â'r cofnodion hyn], a soniodd am yr angen i ystyried beth oedd wedi cael ei gyflawni hyd yma a beth oedd angen ei wneud o hyd.

Cafodd Arweinwyr y Grŵp Annibynnol a'r Grŵp Llafur gyfle i wneud sylwadau ar adroddiad yr Arweinydd.

**PENDERFYNNWYD nodi Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd ar gyfer 2022/23.**

## 8. PENODI AELODAU I BWYLLGORAU CRAFFU, RHEOLEIDDIO, A PHWYLLGORAU ERAILL AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2023-2024

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar aelodaeth arfaethedig Pwyllgorau a Phaneli Rheoleiddio, Craffu, ac Eraill.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

**PHENDERFYNNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo penodi aelodau i Bwyllgorau Rheoleiddio, Craffu a Phwyllgorau Eraill fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## 9. YSTYRIED YR ENWEBIADAU A DDAETHAI I LAW A PHENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU / PANELAU'R CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023-2024

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2023/24.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

**PHENDERFYNNWYD YN UNFRYDOL fod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2023/24:-**

<b><u>PWYLLGOR / PANEL</u></b>	<b><u>CADEIRYDD</u></b>	<b><u>IS-GADEIRYDD</u></b>
Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio	Y Cynghorydd D.M. Cundy	Y Cynghorydd B.W. Jones
Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol	Y Cynghorydd A.G. Morgan	Y Cynghorydd K.V. Broom
Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	Y Cynghorydd C. Jones	Y Cynghorydd S.M. Allen
Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd	Y Cynghorydd K. Madge	Y Cynghorydd K. Davies
Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Y Cynghorydd H.A.L. Evans	Y Cynghorydd B.A.L. Roberts
Pwyllgor Apêl	Y Cynghorydd J.K. Howell	Y Cynghorydd L. Davies
Pwyllgor Penodi A – Cyfarwyddwyr	Y Cynghorydd D. Price	Y Cynghorydd S.M. Allen
Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth	Y Cynghorydd J. Tremlett	Y Cynghorydd D. Price
Pwyllgor y Gwasanaethau Democraataidd	Y Cynghorydd L. Davies	Y Cynghorydd W.T. Evans
Y Pwyllgor Trwyddedu	Y Cynghorydd J.M. Charles	Y Cynghorydd D. Phillips
Pwyllgor Penodi Aelodau	Y Cynghorydd J. Lewis	Y Cynghorydd W.R.A. Davies
Y Pwyllgor Cynllunio	Y Cynghorydd W.T. Evans	Y Cynghorydd C. Jones
Y Panel Adolygu Tai	Y Cynghorydd B.W. Jones	Y Cynghorydd G.B. Thomas
Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed	Y Cynghorydd D.E. Williams	Heb fod yn ofynnol

#### **10. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYFANSODDIAD**

Atgoffwyd y Cyngor o'r gofyniad iddo adolygu ei Gyfansoddiad yn flynyddol a'i fod, fel rhan o'r broses honno, wedi sefydlu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad [CRWG] i gyflwyno unrhyw newidiadau a argymhellir.

Dywedwyd er na fu unrhyw newidiadau deddfwriaethol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i newidiadau gael eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor, byddai angen i'r Cyngor gadarnhau'r cyfansoddiad cyfredol a diwygio Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu symiau rhagnodedig Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w talu i Gynghorwyr ar gyfer 2023-24.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

- 10.1 yn unol â'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, i fabwysiadu Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2023-2024, fel y nodir yn Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad;
- 10.2 mabwysiadu'r newid i Erthygl 6 o'r Cyfansoddiad o ran craffu ar rôl y Dirprwy Arweinydd;
- 10.3 mabwysiadu Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 2023-2024 yn amodol ar y newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n codi o benderfyniadau yn argymhellion 10.1 a 10.2 uchod;
- 10.4 bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen.

**11. AELODAETH AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod y Cynghorydd R. Evans yn cael ei benodi i gymryd lle'r Cynghorydd K. Madge fel cynrychiolydd y Grŵp Llafur ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

## **ATODIADAU**

### **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2022-23**

"Mae'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers i ni i gyd gael ein hethol i'r lle hwn i gynrychioli pobl Sir Gaerfyrddin ac mae wedi bod yn flwyddyn ddiddorol iawn. Un o'r pethau cyntaf a wnaethom fel Cabinet oedd cynllunio i roi ar waith yr hyn yr etholwyd y weinyddiaeth hon i'w wneud, a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gosod sylfeini cadarn yn ein Datganiad Gweledigaeth ac yn y Strategaeth Gorfforaethol i gyflawni hyn. Ar ôl blwyddyn a chyda phedwar arall i fynd gallwn weld llwybr clir o'n blaenau. Mae heddiw yn gyfle i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf a'r hyn sydd gennym i ddod.

Cyhoeddwyd ein Datganiad Gweledigaeth ym mis Gorffennaf y llynedd yn dilyn trafodaethau trawsbleidiol. Fel y dywedais yn fy anerchiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd 'nid monopoli unrhyw unigolyn neu un grŵp gwleidyddol yw syniadau da' ac yn dilyn blwyddyn o gydweithio rwy'n dal i gredu bod hynny'n wir. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu parodrwydd i gyfrannu at ein gwaith a gobeithio y bydd y dull cilyddol hwn a'r wleidyddiaeth aeddfed yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Datganiad Gweledigaeth yn parhau i fod yn drywydd gweithredu o'r hyn a addawsom wrth fynd o ddrws i ddrws y llynedd a dyna y byddwn yn atebol amdano dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni'r ymrwymadau hynny a amlinellir yn Natganiad Gweledigaeth y Cabinet a chynlluniau cyflawni manwl a fydd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd, ac a fydd yn nodi'r union gamau y byddwn yn eu cymryd fel Cyngor i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion. Mae pedwar amcan o fewn y Strategaeth Gorfforaethol, sef Dechrau'n Dda, Byw a Heneiddio'n Dda, Cymunedau Ffyniannus, ac Ein Cyngor. Dylwn nodi ein bod hefyd wedi nodi meysydd allweddol datgarboneiddio, argyfyngau hinsawdd a natur, a'r Gymraeg fel blaenoriaethau thematig ac, ynghyd â ffocws ar gydraddoldeb, byddwn yn sicrhau bod y meysydd allweddol hyn yn cael eu hymgorffori a'u datblygu ym mhopeth a wnawn.

Amcan Llesiant 1 yw Dechrau'n Dda. Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, rydym yn gwybod pam mae hyn yn bwysig - mae'r dechrau gorau yn lleihau anghydraddoldebau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn aml iawn mae angen i ni fuddsoddi er mwyn gwneud hynny.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi agor dwy ysgol newydd, agorwyd Ysgol y Castell yng Nghydweili ym mis Ionawr, adeilad newydd gyda'r gallu i ddarparu addysg gynradd ar gyfer 270 o blant ysgol gynradd a 30 o ddisgyblion meithrin, gyda lle ychwanegol i ddarparu gofal Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Rhagfyr y llynedd agorwyd Ysgol Gorslas newydd sbon, mae gan yr ysgol y capasiti i groesawu a darparu addysg cyfrwng Cymraeg i 210 o ddisgyblion, rhwng 4 ac 11 oed.

Rydym ar y trywydd iawn i ddarparu Prydau Ysgol Am Ddim i bob plentyn Ysgol Gynradd erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Rydym eisoes yn darparu Prydau Ysgol Am Ddim ar gyfer Meithrin, Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2 o ganlyniad i'r cytundeb cydweithredu rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'n braf bod ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru y llynedd. Fel rhan o'r cynllun bydd mwy o ysgolion yn symud i gyfrwng Cymraeg dros y 10 mlynedd nesaf gan greu cyfle i fwy o ddysgwyr gael eu haddysgu yn ddwyieithog. Mae'n cynnwys addysgu rhagor o blant y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg; mwy o bobl ifanc sy'n astudio ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg, gan gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol; a chynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg – gyda chymorth parhaus i ddatblygu staff drwy raglen hyfforddi gynhwysfawr a hyblyg.

Yn dilyn ychydig flynyddoedd anodd, rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gefnogi ysgolion i ddelio ag effeithiau'r pandemig. Mae rhai mentrau i wella presenoldeb ac ymddygiad o fewn ysgolion yn dilyn Covid er enghraifft wedi dod â ffocws ychwanegol i'r sefyllfa. Mae'n parhau i fod



yn gyfnod anodd ar draws llawer o leoliadau ym myd addysg a hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith parhaus yn ystod cyfnod anodd o newid.

Un o'r tasgau anoddaf i'r Cabinet eleni yw gosod cyllideb ddrafft i'r Cyngor ei hystyried. Mae blynyddoedd o fesurau cyni wedi arwain at ein sefyllfa bresennol - torri, lleihau, gweld a allwn ni dorri ychydig yn fwy oddi ar wasanaeth neu ddarpariaeth. Fodd bynnag, o ran toriadau i addysg, rydym wedi ceisio amddiffyn ysgolion yn gyson rhag toriadau dros y blynyddoedd diwethaf a byddwn yn parhau i wneud hynny ond mae pob blwyddyn yn dod yn fwyfwy heriol. Rwy'n gwbl hyderus yn ein Hadran Addysg, rwy'n gwybod eu bod yn gweithio ar eu gorau i ddarparu'r addysg orau bosibl i'n plant, ond rwy'n poeni am y pwysau y mae Penaethiaid ac Uwch-reolwyr yn eu hwynebu yn barhaus i geisio cyflawni mwy gydag adnoddau cyfyngedig.

Dim ond yr wythnos diwethaf ymwelodd y Prif Weithredwr a minnau â'r Gwasanaethau Plant yn Llanelli ac rwy'n hynod falch o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu o dan amgylchiadau heriol. Mae ein ffocws ar wasanaethau ataliol a chadw teuluoedd gyda'i gilydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac o ganlyniad mae gennym un o'r cyfraddau isaf o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru. Yn wir, dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein gwaith yn y maes hwn wedi cael ei nodi gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol ein bod yng nghanol Pythefnos Gofal Maeth sydd â'r nod o gynyddu nifer y gofalwyr maeth yn Sir Gaerfyrddin a bod ganddynt rôl hanfodol yn y Gwasanaethau Plant. Bore yma hoffwch ddiolch i'n holl staff, gofalwyr maeth a phartneriaid sy'n gweithio yn y maes hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith rydych chi'n ei wneud ar ein rhan.

Amcan Llesiant 2 Byw a Heneiddio'n Dda – sy'n canolbwyntio ar alluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda, ac Amcan Llesiant 3 Cymunedau Ffyniannus – sy'n ceisio darparu cymunedau ac amgylcheddau ar gyfer amgylchedd iach, diogel a ffyniannus yn ganolog i'n gweledigaeth fel Cabinet.

Rydym yn gwybod bod tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae dros draean o'n haelwydydd yn parhau i fyw mewn tlodi (35.6%), lefel sydd wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf heb gael ei helpu gan gyni Toriaidd. Rydym yn gwybod bod y sir hon yn parhau i wynebu argyfwng costau byw ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r mater hwn yn uniongyrchol. Mae gennym ymgynghorwyr newydd yn ein canolfannau Hwb sy'n darparu cyngor cyllidebu a budd-daliadau. Rhyddhawyd £180,000 o'r Gronfa Dlodi ar gyfer trigolion lleol a grwpiau cymunedol i ddarparu Mannau Croeso Cynnes, agoron ni ein llyfrgelloedd yng Nghaerfyrddin, Llanelli, a Rhydaman fel mannau cynnes yn ogystal â chefnogi partneriaid trydydd sector i ddarparu cefnogaeth yn y gymuned. Byddwn yn parhau i gefnogi ein trigolion fel yr ydym bob amser yn ei wneud, ac i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y mater hwn rydym wedi sefydlu panel ymgynghorol trawsbleidiol ar fynd i'r afael â thlodi i adrodd i'r Cabinet yn rheolaidd.

Yn gynharach eleni penderfynon ni weithredu'n bendant i fynd i'r afael â'r diffyg tai fforddiadwy drwy gyflwyno premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag. Y bwriad o ran cyflwyno premiwm ar ail gartrefi a thai gwag tymor hir yw naill ai annog mwy o ddefnydd o'r tai hyn, neu sicrhau bod eu perchnogion yn cyfrannu mwy tuag at ein cymunedau. Erbyn y flwyddyn 2025/26, gallai cyfanswm y premiwm ar gyfer y ddau ddsbarth godi unrhyw beth hyd at £3m o bosibl, fel cyfraniad i'n helpu i gynnal gwasanaethau hanfodol, neu gellid rhyddhau tai i fod yn gartrefi ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin, yn dibynnu ar ymateb y perchnogion.

Fel y gwyddoch eisoes, mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r cynllun yn nodi egwyddorion ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn amlinellu sut y bwriadwn gyflawni ein cyfrifoldebau fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau ac fel arweinydd cymunedol. Byddwn yn annog aelodau'r cyhoedd i ymateb i'r ymgynghoriad gan y bydd yn helpu i lunio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol nesaf a fydd ar waith rhwng 2024 a 2028.

Rwy'n falch bod cynnydd yn cael ei wneud mewn ymrwymiad gan y Datganiad Gweledigaeth i gynyddu lefel y ddarpariaeth fewnol ym maes gofal cymdeithasol ac ail-gydbwysu'r farchnad yn lleol. Un o gonglfeini cyflawni hyn yw cynyddu ein gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae pwysau sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi tynnu sylw at yr pwysigrwydd angen am weithlu cryf. Haf diwethaf gwnaethom lansio Academi Gofal newydd sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i'r rhai sy'n awyddus i gael gyrfa ym maes gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol. Yn agored i

bob oedran, mae'r Academi yn darparu hyfforddiant, cymorth ac arweiniad, gan alluogi ymgeiswyr i ennill cyflog wrth ddysgu a dewis llwybr gyrfa sydd fwyaf addas iddynt. Drwy gyfuniad o addysg a hyfforddiant yn y swydd, mae cyfleoedd amrywiol i archwilio'r amrywiaeth o rolau gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol sydd ar gael. Rwy'n awyddus iawn i weld ein bod yn hyrwyddo hyn fel llwybr gyrfa yn ein hysgolion a'n canolfannau addysg bellach. Mae diwygio sylweddol o ran gwella telerau ac amodau ein staff mewnol a mentrau ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud gwahaniaeth ac mae'r nifer sy'n aros am ofal Cartref yn yr ysbyty a'r gymuned bellach yn gostwng i lefelau cyn y pandemig. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, byddwn yn agor ein cartref plant cyntaf sy'n cael ei redeg gan y cyngor yn yr hydref gan ein galluogi i ail-gydbwysio marchnad nad yw wedi gwasanaethu'n plant yn dda.

Cymunedau lle gall pawb ffynnu yw cymunedau ffyniannus. Lle mae cyflogaeth, trafndiaeth, hamdden a gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb. Mae diffyg cymwysterau neu sgiliau, trafndiaeth, mynediad at wasanaethau i gyd yn rhwystrau i weithgarwch economaidd. Mae darparu swyddi diogel sy'n talu'n dda i bobl leol yn hanfodol.

Mae ein Strategaeth Arloesi a lanswyd yr wythnos diwethaf yn ganolog i'r weledigaeth honno ac mae'n ceisio nodi cynigion i gefnogi adferiad ac ailstrwythuro economi Sir Gaerfyrddin drwy arloesi. Mae ffocws y strategaeth ym meysydd yr Economi Sylfaenol; Iechyd a Llesiant; Arloesi Digidol ac effaith Newid Hinsawdd a'r cyfleoedd y gallai harneisio Economi Gylchol eu cael ar y sir.

O ran yr amgylchedd, mae wedi bod yn wych gweld datblygiad ETO yn Nant-y-caws a Llanelli a symud ymlaen i wneud ein fflyd yn fwy gwyrdd. Byddai'n esgeulus i mi adrodd ar ddatblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf heb gyfeirio at y newidiadau sylweddol i'n casgliadau sbwriel. Ym mis Ionawr dechreuon ni gasglu bagiau glas a gwastraff bwyd bob wythnos ochr yn ochr â gwasanaeth casglu gwyrdd newydd ar ymyl y ffordd bob tair wythnos. Mae'n braf ein bod eisoes yn gweld newidiadau cadarnhaol o ran cyfraddau ailgylchu a fydd, rwy'n siŵr, yn cael eu hadlewyrchu yn erbyn ein targedau statudol.

Rydym hefyd wedi gweld datblygiad o ran y cynllun bwyd cynaliadwy sy'n cefnogi rhan o raglen waith y BGC. Mae ein Strategaeth Fwyd Leol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ac mae'n cael ei hadolygu gan bartneriaid a rhanddeiliaid y BGC. Bydd mabwysiadu Strategaeth Fwyd Leol a gosod targedau uchelgeisiol yn cadarnhau sylfeini Sir Gaerfyrddin fel yr ardal awdurdod lleol arweiniol yng Nghymru o ran gweithredu ar fwyd cynaliadwy.

O ran Trafndiaeth a Seilwaith, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r prosiect bysiau a seilwaith trydan T1 drwy adeiladu cyfleuster bysiau newydd yn Nant-y-ci a chwblhau ffordd gswllt Cross Hands sy'n allweddol ar gyfer datblygiad economaidd o amgylch safle cyflogaeth strategol Cross Hands. Mae seilwaith Teithio Llesol newydd wedi'i adeiladu i gefnogi teithio mwy cynaliadwy ac mae cynnydd yn parhau ar Lwybr Dyffryn Tywi gyda'r cais Cynllunio wedi'i gyflwyno a'r prosesau prynu tir angenrheidiol ar waith.

Yn bwysig, rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar ddatblygu strategaeth trafndiaeth gymunedol ac yn parhau i lobio dros ddarparu ffordd osgoi Llandeilo.

Rydym hefyd wedi parhau â'n hymrwymiad i adeiladu mwy o gartrefi yn Sir Gaerfyrddin. Mae ein cartrefi newydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â thlodi. Mae cartrefi ar ein safleoedd mwy newydd gan gynnwys Teras Glanmor ym Mhorth Tywyn yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern, mae ganddynt lefelau eithriadol o uchel o insiwleiddio i helpu i leihau'r gwres sy'n cael ei gollu ac maent yn cynnwys technoleg adnewyddadwy gan gynnwys paneli solar, pwyntiau gwefru cerbydau trydan a man storio batris sy'n helpu i ddarparu biliau ynni is i denantiaid. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu tai sydd wedi'u cynllunio gydag ystod ehangach o fesurau a fydd yn lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon, gan gefnogi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030.

O ran hamdden, agorwyd Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn ym mis Mawrth, a chefais y pleser o fod yn bresennol yn yr agoriad swyddogol. Mae gan Bentywyn hanes unigryw o ran record cyflymder y byd dros dir yn ogystal â bod yn un o'r darnau mwyaf prydferth o draeth yn y wlad. Mae'r prosiect yn cynnwys y 'Caban' - llety sydd wedi'i adeiladu gan ddefnyddio technolegau adeiladu cynaliadwy. Mae Caban, sy'n edrych dros y traeth, yn cynnwys bwyty a bydd yn darparu ar gyfer y farchnad gwyliau cerdded a chwaraeon antur awyr agored yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio

am brofiad arfordirol. Mae'n gymaint o bleser gweld y datblygiad ym Mhentywyn, ac rwy'n siŵr y bydd o fudd i drigolion lleol ac ymwelwyr â'r ardal.

Bydd aelodau'n ymwybodol ein bod wedi lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar a fydd yn darparu buddsoddiad ychwanegol o £36.68m i helpu i gyflawni rhai o amcanion strategol allweddol Sir Gaerfyrddin. Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu cyfleoedd newydd i gymunedau lleol, yn cefnogi datblygiad a thwf busnesau lleol yn ogystal â chefnogi adferiad canol ein trefi ac mae'n gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf y gellir ei ddefnyddio i gefnogi cymunedau. Rydym hefyd wedi lansio ail gam y Rhaglen ARFOR gwerth £11 miliwn, sy'n ceisio sicrhau hwb economaidd a chryfhau'r Gymraeg ar draws siroedd Gwynedd, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn, ac rydym bellach yn gwahodd ceisiadau i'w Chronfa Cymunedau Mentrus. Daw ail gam y Rhaglen arloesol hon fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ac rydym yn ddiolchgar am hynny.

Mae'r Cabinet yn credu bod gan gaffael lleol ran sylweddol i'w chwarae o ran twf economaidd ac rydym wedi gofyn i swyddogion adolygu'r ffordd y mae ein fframweithiau caffael yn gweithio i gynyddu lefel caffael lleol a chefnogi busnesau lleol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith yn cefnogi Tasgluoedd Canol y Dref yn Rhydaman a Llanelli, a Fforwm Adfywio Canol Tref Caerfyrddin ynghyd â'r fenter Deg Tref ac rwy'n credu'n gryf bod angen i ni ledaenu datblygiad economaidd ar draws y sir.

Yn Llanelli, mae gwaith wedi dechrau ar brosiect Pentre Awel ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar adeilad YMCA yn Llanelli, ac mae disgwyl i waith yng Ngogledd Stryd y Farchnad ddechrau yn ystod y misoedd nesaf. Braff hefyd yw gweld cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer rhannau eraill o Lanelli. Mae adfywio Tyisha yn allweddol i ddatblygiad y dref, gan ddarparu cyswllt pwysig rhwng canol y dref a phrosiect Pentre Awel. Gallai busnesau mewn rhannau penodol o dref Llanelli hefyd elwa o Gronfa Eiddo Gwag Canol Trefi y Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd wedi'i lansio ac sy'n canolbwyntio ar ddod ag eiddo gwag ar y llawr gwaelod yn ôl i ddefnydd masnachol. Mae'r gronfa hon hefyd ar gael ar gyfer rhannau o Gaerfyrddin a Rhydaman. Mae adfywio tref Llanelli yn rhywbeth yr wyf wedi ymrwymo'n bersonol iddo. Rydym am ei wneud yn rhywle lle mae pobl eisiau byw a gweithio drwy ddod â siopau gwag yn ôl i ddefnydd a chreu cartrefi mawr eu hangen. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r holl bartneriaid sy'n rhannu'r uchelgais honno.

Yng Nghaerfyrddin bydd gwaith yn dechrau yn ddiweddarach eleni yn natblygiad HWB fydd yn gartref i'n timau gwasanaeth cwsmeriaid - gan gynnig cyngor a chefnogaeth i'n trigolion. Bydd yr Hwb yn cynnwys campfa yng nghanol y dref, cyfleusterau'r GIG ac amryw o wasanaethau'r cyngor. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd i'n trigolion gael mynediad i addysg bellach ac uwch drwy Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Hefyd yng Nghaerfyrddin rydym yn parhau â chynlluniau datblygu Lôn Jackson, gan gynnwys gwyrddni, seddi awyr agored ar gyfer bwytai a chaffis cyfagos yn ogystal â lle ar gyfer stondinau a digwyddiadau'r farchnad. Mae'r gwaith yn parhau gyda datblygiad Oriol Myrddin, Heol y Brenin.

Mae'r gwaith gwella i orsaf fysiau Caerfyrddin ar fin cael ei gwblhau, ac mae cyllid Mynd i'r Afael â Threfi y Gronfa Ffyniant Gyffredin gwerth £500k wedi nodi 5 prosiect i'w cyflawni yn y dref. Rydym wedi gweithio gydag AGB Caerfyrddin a Chyngor Tref Caerfyrddin i ddenu ymwelwyr ac mae marchnad bwyd a diod fisol yn cael ei chynllunio.

O ran Rhydaman, ymwelais â'r dref gydag aelodau yr wythnos diwethaf, a gwelais gynydd yn cael ei wneud o ran y Tasglu - gyda chynlluniau i gefnogi canol y dref ymhellach a chynyddu nifer y stondinau marchnad. Mae cae chwaraeon 3G a chyfleusterau hamdden wedi ychwanegu at y cyfleusterau chwaraeon gwych sydd eisoes ar gael yn y dref. Rydym wedi llobio a byddwn yn parhau i llobio Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol i ailagor rheilffordd Dyffryn Aman i ddarparu gwasanaethau i Rydaman ac i ben Dyffryn Aman fel rhan o Fetrol Bae Abertawe, a chredaf y byddai'n hwb sylweddol i'r rhan hon o'r sir.

Fel y bydd aelodau yn ymwybodol rydym wedi cyhoeddi ein hail Gynllun Datblygu Lleol drafft - sy'n ceisio sicrhau datblygiad economaidd a thai ar draws y sir, ac sydd hefyd yn ceisio cryfhau ein polisïau o amgylch ardaloedd tirwedd arbennig. Y cam nesaf yw cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

Nod Amcan Llesiant 4 – Ein Cyngor – yw moderneiddio a datblygu ein cyngor ymhellach mewn ffordd wydn ac effeithlon.

Yn gynharach eleni cawsom Wobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl sy'n rhyfeddol o ystyried amgylchiadau'r tair blynedd diwethaf. Gwyddom y gallwn addasu fel sefydliad, mae Covid wedi profi hynny, ond roedd gweld ein cyflawniadau yn cael eu cydnabod gan Fuddsoddwyr mewn Pobl fel hyn yn arbennig o bleserus.

Rwy'n gwerthfawrogi gwaith yr Undebau Llafur yn llwyr ac ers dod yn Arweinydd, rwyf wedi cychwyn fforwm ymgynghorol ar y cyd lle mae arweinwyr grwpiau, ynghyd â Wendy, Paul a'r Cynghorydd Phil Hughes yn cwrdd â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur bob chwarter fel y gellir codi a thrafod materion allweddol yn uniongyrchol gyda chynghorwyr. O ystyried yr heriau ariannol heriol y bydd yn rhaid i ni eu hwynebu yn y dyfodol, mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio â'r undebau llafur mewn ffordd agored, onest a chydweithredol. Dros y 12 mis diwethaf, fel aelodau, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd, ac rydym wedi llwyddo i gynyddu cyflogau rhai o'n gweithwyr ar y cyflogau isaf, gan gynnwys Gofalwyr Cartref, Gweithwyr Gofal Preswyl, Llwythwyr Sbwriel a Gyrwyr Sbwriel.

Roedd ein Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 yn cymeradwyo'r ychwanegiad Cyflog Byw Gwirioneddol, fel yr ydym wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf, i sicrhau bod ein cyflog isaf yn derbyn yr hyn sy'n cyfateb i £10.90 yr awr. Byddwn yn parhau i weithio gyda Cynnal Cymru ac eraill i archwilio'r posibilrwydd o gydgrynhoi ein dull gweithredu a dod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig.

Yng nghyfarfod y Cabinet ddydd Llun, gwnaethom gymeradwyo'r Cynllun Beicio i'r Gwaith a Benthyciad i Brynu Car, gan gynyddu'r terfyn a'r telerau ar y cynllun beicio i'r gwaith a chyfanswm y benthyciad ymlaen llaw ar y cynllun Benthyciad i Brynu Car i adlewyrchu costau a phwysau cynyddol. Rydym hefyd wedi cynyddu'r gyfradd milltiroedd lle bo angen er mwyn cefnogi cost amrywiol tanwydd.

Mae'r blynyddoedd nesaf yn debygol o fod yr un mor heriol, os nad mwy, gan fod cynnydd mewn costau allanol yn debygol o roi straen ychwanegol ar gyllidebau ariannol. Rydym hefyd yn debygol o barhau i weld cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau fel gofal cymdeithasol yn y cyfnod ôl-Covid hwn, ynghyd â chynnydd yn nisgwyliaidau cwsmeriaid hefyd yn ystod y pandemig. Rydym wedi lansio Strategaeth Drawsnewid, rhaglen newid a fydd yn caniatáu i'r Cyngor edrych i'r dyfodol yn hyderus a pharhau i gyflawni ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau er budd ein trigolion yn ein sir. Er bod y Cyngor hwn wedi wynebu heriau digynsail dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gellid dadlau bod y degawd diwethaf wedi bod yn gyfnod o her gyson i lywodraeth leol. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i leihau gwariant cyhoeddus yn sylweddol mewn ymateb i argyfwng ariannol 2008 wedi arwain at her gyllidebol ddifrifol i lywodraeth leol sydd wedi para am gyfnod o dros 10 mlynedd. Mae'r ffaith ein bod wedi gallu parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn ystod cyfnod pan oedd galwadau gwasanaeth hefyd yn cynyddu, yn dyst i'r arloesedd a'r creadigrwydd a ddangoswyd gan staff y Cyngor wrth nodi ffyrdd o ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy effeithlon a diolchaf iddynt am y gwaith y maent wedi'i wneud ar yr agenda hon.

Mae'n gwbl glir ein bod fel cyngor yn wynebu llawer o heriau. Fel aelodau, byddwch eisoes wedi cymryd rhan yn yr adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg dros y misoedd diwethaf. Ac er ein bod yn cynnal adolygiad o'n gwaith ôl troed ysgol yn parhau ar Ysgol Gwenllian ac rydym wrthi'n datblygu ateb i safle arfaethedig Ysgol Dewi Sant, mae'n sefyllfa gymhleth, ac rydym yn awyddus i weithio gyda'r Cyngor Tref a Llywodraeth Cymru ar hynny. Rydym hefyd yn awyddus i ddod o hyd i ateb i ysgolion yn ardal Rhydaman. Mae'n hanfodol bwysig i ni ymgysylltu ag aelodau ar draws y siambr wrth i ni ddatblygu atebion i ddarparu darpariaeth addysg ar draws y sir dros y blynyddoedd nesaf.

Mae ein rhwydwaith ffyrdd yn hanfodol o ran cysylltu cymunedau, gan ddarparu mynediad i swyddi, addysg, gofal iechyd a gwasanaethau ac mae'n clymu cymunedau gyda'i gilydd. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu ôl-groniad hanesyddol o danfuddsoddi wrth gynnal yr wythiennau allweddol hyn ac nid yw Sir Gaerfyrddin yn eithriad. Er ein bod wedi gallu cadw ein ffyrdd prysuraf mewn cyflwr rhesymol, mae'n amlwg bod angen mwy o fuddsoddiad i gynnal y rhwydwaith ffyrdd ehangach. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu parhau â'r Grant Adnewyddu Ffyrdd a ddaeth i ben yn 2021/22 ac a helpodd i osod wyneb newydd ar ein ffyrdd. Mae hyn felly yn her ariannol sylweddol i'r awdurdod.

Mae ein buddsoddiad mewn gosod wyneb newydd wedi gostwng o £3.9m yn 2022/23 i £1.6m eleni er bod costau tendro ar gyfer gosod wyneb newydd wedi cynyddu 30% ers 2020. O ganlyniad, mae gennym swm llai i'w fuddsoddi, ac nid yw'r buddsoddiad hwnnw'n cyflawni cymaint. Gwyddom fod angen tua £8 miliwn bob blwyddyn i gynnal y rhwydwaith mewn cyflwr cyson. Heb fuddsoddiad parhaus, bydd ein ffyrdd yn dirywio, a bydd tyllau yn dod yn bryder cynyddol i'r cyhoedd. Ac mae

hyn yn rhywbeth rwy'n gwbl benderfynol o fynd i'r afael ag ef a byddwn unwaith eto yn croesawu cefnogaeth drawsbleidiol ar hynny.

Mae gennym oddeutu 9,500 o gartrefi o dan ein cyfrifoldeb ac mae maint y gwaith o gynnal ac atgyweirio'r stoc honno yn sylweddol. Ers trosglwyddo gwasanaethau cynnal a chadw y llynedd mae'r Adran Gwasanaethau Cymunedol wedi gweithio'n galed eleni i wella'n sylweddol y ffordd yr ydym yn ymateb i dai gwag ac atgyweiriadau wrth i ni wynebu'r ôl-groniad anochel o waith ar ôl y pandemig. Mae gwaith â ffocws bron wedi haneru nifer y tai gwag yn y system gyda gwelliannau pellach i ddod, gan gynnwys system amserlennu newydd a fydd yn gwbl weithredol erbyn canol 2024. Cyfarfu'r Cabinet â'r Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaeth yn y gwanwyn, ac roeddem yn falch iawn o'r cynnydd a wnaed a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld y canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn eu disgwyl dros y flwyddyn nesaf.

Her sylweddol i ni dros y blynyddoedd nesaf yw'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Roeddwn yn siomedig iawn bod canlyniadau cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn nodi gostyngiad o 4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. Y gwir amdani yw ein bod yn gweld dirywiad ac mae angen i ni weithredu'n gyflym i atal hyn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Cabinet wedi cymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg am y 5 mlynedd nesaf yn gynharach yr wythnos hon, strategaeth i hybu'r Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin. Nod y strategaeth yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, balchder ymhlith trigolion yn ogystal â'r defnydd a'r hyder yn y defnydd o'r iaith a hefyd hyrwyddo'r iaith fel norm yn y gweithle ac o fewn y gweithlu a chreu cymunedau Cymraeg llewyrchus.

Rydym wedi cyflawni llawer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o dan amgylchiadau heriol iawn. Byddwn yn parhau i gyflawni ein Datganiad Gweledigaeth dros y flwyddyn nesaf ac rwy'n siŵr y bydd heriau newydd o'n blaenau hefyd. Ond mae ein hamcanion yn gadarn ac mae gennym strategaeth glir ynghylch sut y byddwn yn cyflawni'r nodau hyn.

Hoffwn ddiolch i'r Cabinet a fy nghyd-aelodau ar draws y Siambr am eu cefnogaeth dros y flwyddyn a hefyd i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol am eu cyngor ac i holl swyddogion a staff y cyngor am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf."

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNGOR  
21 MEHEFIN 2023**

**ARGYMHELLION DRAFFT - ADOLYGIAD CYMUNEDOL YN SIR  
GAERFYRDDIN**

**Y Pwrpas:** Yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad cychwynnol, crynhoi i'r Cyngor ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyntaf.

**Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**

dros £4.1m yn ysgogiad i adfywio pellach yn y dref. Ac mae dros £2.4m wedi bod yn gyfraniad gan y Cyngor a'r gweddill gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llandeilo hefyd wedi cael Arfarniad Ardal Gadwraeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi ysgogi syniadau a chyfleoedd i'w gwella fel canol tref hanesyddol. Mae'r arfarniad diweddar yn rhoi treftadaeth hanesyddol a phensaernïol wrth ei wraidd a bydd angen i unrhyw brosiectau adfywio a gynigir ar gyfer yr ardal roi ystyriaeth iddo. Bydd hyn yn cael ei roi ar y wefan cyn gynted ag y bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ac mae'n gweithio'i ffordd drwy'r broses ddemocrataidd, sydd wedi bod trwy'r broses graffu ac a fydd yn dod gerbron y Cabinet yn fuan iawn.

Yn dilyn y gwaith hwn ar Ardaloedd Cadwraeth mae'r Tîm Treftadaeth Adeiledig wedi gwneud cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin Cymunedau Cynaliadwy er mwyn cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o adfywio canol y trefi hanesyddol mewn 7 o'r trefi gwledig ar draws Sir Gaerfyrddin, a Llandeilo yw un o'r 7 hynny a ddewiswyd. Bydd y prosiect, os caiff ei ariannu'n llwyddiannus, yn cyflwyno gweithgareddau hyfforddi ac addysg i drigolion lleol mewn effeithlonrwydd ynni a gofal priodol ar gyfer hen adeiladau ac yn cynnig rhaglen grant bach 3ydd parti i adnewyddu ac atgyweirio adeiladau masnachol hanesyddol.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn unigryw yng Nghymru gyfan ac efallai yn y DU gyfan o ran bod ganddi ganolfan wybodaeth a hyfforddiant adeiladau hanesyddol yn Llandeilo, sef Canolfan Tywi wrth gwrs, sydd o fewn awdurdodaeth y Cyngor. Mae'r Tîm Treftadaeth Adeiledig yng Nghanolfan Tywi yn Fferm Plas Dinefwr, Llandeilo ar gael i roi cyngor am ddim cyn gwneud cais ar gyfer adeilad rhestredig a gwybodaeth am atgyweirio a chynnal a chadw pob adeilad traddodiadol yn briodol, yn ogystal â darparu rhaglen helaeth o hyfforddiant.

Fel y soniais ar y dechrau, ymddiheuriadau am yr ateb hir, ond mae'r gwaith y mae'r weinyddiaeth hon o dan arweiniad Plaid Cymru wedi'i gyflawni yn Llandeilo wedi bod yn aruthrol. Mae'n werth nodi hefyd bod y fenter 10 tref yn dod â thrac pwmpio i mewn i'r dref at ddefnydd hamdden. Ac rwy'n edrych ar Edward yma gan obeithio mai fe fydd y cyntaf ar y beic o amgylch y trac pwmpio! Yn ôl pob tebyg bydd hyn yn cael ei ddefnyddio gan drigolion iau Llandeilo, ond wrth baratoi'r fenter hon bydd yn darparu gweithgareddau, siopau a chyfleoedd hamdden i bawb, gan arwain at economi fywiog sydd o fudd i drigolion a thwristiaid fel ei gilydd”.

#### **Cwestiwn atodol gan Ms Tara-Jane Sutcliffe:-**

“Arfarniad ardal gadwraeth. Rwy'n gwybod bod sôn wedi bod yn un o'r is-bwyllgorau cyn y Pasg y bydd yr ardal gadwraeth yn Llandeilo yn cael ei rhannu'n ddwy, un ardal i gwmpasu'r dref ac un ardal i gwmpasu Dinefwr - sydd, fel rwy'n deall, yn seiliedig ar argymhellion arbenigol a ddarparwyd gan Donald Insall Associations. A ydych mewn sefyllfa i ddweud unrhyw beth pellach ar fwriadau i dderbyn yr argymhellion hynny, ac ymhellach a allwch chi ymrwmo i ddiogelu ardaloedd cadwraeth yn Llandeilo? Roeddech chi'n sôn bod y broses yn parhau felly a yw hi efallai ychydig yn gynnar i ddweud ar hyn o bryd? Diolch yn fawr”.

#### **Ymateb gan y Cyngorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio i'r cwestiwn atodol:-**

“Yr argymhelliad yw bod y ddwy ardal wahanol yn cael eu rhannu ac mae hynny am fod y ddwy ardal yn wahanol iawn. Tref farchnad yw'r dref - mae ganddi ei

threftadaeth ei hun - ond wrth gwrs mae Parc Dinefwr yn wahanol iawn, mae'n ardal wahanol, sy'n llawer mwy gwledig a dyna'r rheswm dros rannu'r ddwy ardal. Fel y soniais, mae'n mynd drwy'r broses ddemocrataidd, mae wedi mynd drwy'r broses Graffu a bydd yn dod yn ôl i'r Cabinet maes o law a bydd y penderfyniad wedyn yn cael ei wneud gan y Cabinet. Diolch”.

### **5.3. CWESTIWN GAN HAVARD HUGHES I'R CYNGHORYDD ANN DAVIES - YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO**

“A fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi ymgyrch dros Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Tywi? Byddai ffiniau awgrymedig yr ardal hon yn seiliedig ar yr ardal a nodwyd fel "Tirwedd Eithriadol" ar asesiad LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru.”

#### **Ymateb gan y Cyngorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio :-**

“Diolch i chi am eich cwestiwn. Fel y gwyddoch mae dynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn dod o fewn cylch gwaith CNC a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ac er y bydd gan Sir Gaerfyrddin rôl ymgyngori, nid ni sy'n gwneud y penderfyniadau. Hefyd, os caf eich atgoffa Havard nad yw Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn atal peilonau rhag cael eu hadeiladu ar y safleoedd hyn, fel yn Eryri a Bannau Brycheiniog, a hefyd ni wnaeth Ardal Tirwedd Arbennig atal Tyrbinau Gwynt rhag cael eu hadeiladu ar ben Mynydd y Betws.

Mae grŵp Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Mynyddoedd Cambriaidd wedi bod yn gweithio ar eu cais ers tua 2 flynedd gan ofyn am gefnogaeth y Cyngor gan fod pen gogleddol y Sir yn dod o fewn yr ardal. Maen nhw wedi cyflwyno eu cais ac wedi cael gwybod gan weinidogion Cymru na fydd y cais yn cael ei asesu tan 2025/26 ar y cynharaf, ac yna dim ond os yw'n mynd i flaen-raglen waith newydd y Llywodraeth.

Felly, maen nhw wedi bod yn gweithio ar hyn ers 2021 ac mae'n bosib y bydd ganddyn nhw ymateb erbyn 2026. Gan gofio bod Bute and Green Gen yn gobeithio cyflwyno cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol erbyn 2024 - nid yw'r amserlen ar ein hochr ni yn y mater hwn, ac fel y gwyddoch, unwaith eto Llywodraeth Cymru ac nid y Cyngor Sir hwn sy'n penderfynu ar gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

O fynd yn ôl at y cwestiwn o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, cyn cyflwyno ymateb i'r grŵp Mynyddoedd Cambriaidd, mi wnes i ymgyngori gyda'r tri Chyngor Cymuned sy'n dod o fewn ffin y cais hwn. Daeth y tri Chyngor Cymuned yn ôl gydag ymateb negyddol. Mae un ohonynt o fewn llwybr Wysg/Tywi. Ceisiadau cynllunio oedd eu prif bryderon, gan fod cael caniatâd cynllunio ar gyfer ail Gartref Menter Wledig neu ar gyfer siediau ychwanegol ar gyfer wyna a lloia yn cael ei ystyried yn llawer anoddach mewn ardal sydd wedi ei dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Undeb Amaethwyr Cymru a'r NFU yn erbyn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ychwanegol, ac felly hefyd Barciau Cenedlaethol am y rheswm hwn.

A gaf eich sicrhau chi Havard, fy mod yn benderfynol o wneud popeth o fewn fy ngallu i ddiogelu ein tirweddau arbennig ar draws y sir tra hefyd yn sicrhau bod



ffermydd a mentrau lleol yn gallu datblygu a chefnogi swyddi o fewn ein hardaloedd gwledig a darparu economi fywiog i'n holl drigolion.

Felly, cyn gwneud penderfyniad pendant ar y mater hwn, teimlaf ei bod yn hanfodol bwysig bod ymgynghori'n digwydd gyda'r trigolion a'r busnesau y byddai hyn yn effeithio arnynt. Mae'n hollbwysig fod unrhyw un sy'n cynnig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Nyffryn Tywi yn ymgynghori gyda'r rhai sy'n byw yn yr ardal, y rhai sy'n rhedeg busnesau yn yr ardal, cynrychiolwyr etholedig y cynghorau cymuned lleol, cynrychiolwyr etholedig y Cyngor Sir hwn, a mudiadau fel yr undebau amaeth a phartion eraill sydd â diddordeb. Diolch”.

#### **Cwestiwn atodol gan Mr Havard Hughes:-**

“Yn y cyfarfod diwethaf gwnaethoch sôn y byddai'r ardaloedd tirwedd arbennig yn cael eu disodli gan ganllawiau ar sut y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn asesu ei ardaloedd tirwedd yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhoi cyflwyniad ar yr ymgynghoriad a'r cyngor yn seiliedig ar y CDLI. Mae hyn wedi gadael ansicrwydd a phryder ymhlith trigolion. Pryd fydd hyn yn cael ei gyhoeddi? A beth ydych chi'n mynd i'w wneud ag e yn dilyn yr ymgynghoriad?”

#### **Ymateb gan y Cynghorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio i'r cwestiwn atodol:-**

“Diolch i chi am eich cwestiwn Havard . Hoffwn nodi'n gyflym cyn i mi ateb eich ail gwestiwn, a sylwaf yn eich datganiad i'r wasg yn syth ar ôl eich ymweliad diwethaf yma â'r Siambr, eich bod wedi dweud mai'r "dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig wnaeth achub darn Abergwili rhag cael peilonau ac a arweiniodd at eu gosod o dan y ddaear”. Ga i awgrymu eich bod yn gwirio'ch ffeithiau cyn cyflwyno i 'Wales Online' yn y dyfodol gan nad yw'r Farn Gyfreithiol yn sôn am Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y penderfyniad cloi. Mae yna sawl rheswm arall, ond nid ydynt yn cynnwys dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig, a dyna pam mae angen polisi cryfach a mwy cadarn. Ac os sylwch yn yr ymgynghoriad ar y CDLI, mae'r fframwaith newydd yr ydym yn ei gynnig – yr asesiadau cymeriad tirwedd - yn cael eu crybwyll yn y ddogfen honno ac awgrymaf eich bod yn mynd yn ôl i edrych ar honno cyn i ni gael sgwrs bellach”.

#### **5.4. CWESTIWN GAN CHARLIE EVANS I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR**

"Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch ei safle newydd ar gyfer ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd. Bydd hyn yn arwain at israddio'n ddifrifol wasanaethau yn Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin ac mae trigolion yn gwrthwynebu hyn yn gryf. A chymryd bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud sylwadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghylch yr ymgynghoriad, pa un o'r tri safle arfaethedig- Sanclêr, Gerddi'r Ffynnon yn Hendy-gwyn ar Daf neu Dŷ Newydd yn Hendy-gwyn ar Daf yw'r opsiwn a ffefrir gan y Cyngor?"

#### **Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor:-**

“Diolch i chi am y cwestiwn. Yn gyntaf oll byddwch chi'n ymwybodol o ddatganiadau sydd wedi eu gwneud dros nifer o flynyddoedd gan aelodau'r Cyngor hwn o ran pwysigrwydd Glangwili i Sir Gaerfyrddin, ac nid yw ein safbwynt ni wedi newid yn yr ystyr yna - rydym o'r farn bod gan Glangwili rôl ganolog mewn darparu gofal iechyd i

bobl Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwy'n cwestiynu'r rhesymeg y tu ôl i'ch cwestiwn, mae'n ymddangos braidd yn ddbwrpas yn yr ystyr mai'r Bwrdd Iechyd yw'r corff sy'n penderfynu ar hyn, fel y gwyddoch yn iawn, felly rwy'n meddwl tybed pam eich bod yn gofyn i'r Cyngor Sir am eu barn ar y safleoedd sy'n cael eu cyflwyno. Teimlaf fod y cwestiwn yn fas ac yn brin o ddyfnder oherwydd, a dweud y gwir, mae yna heriau llawer mwy yn wynebu iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhan hon o'r byd, fel yn wir yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Does dim sôn yn y cwestiwn am bwysigrwydd trosglwyddo gofal o leoliadau aciwt i leoliadau yn y gymuned - mae hynny'n gwbl sylfaenol ac yn rhywbeth yr ydym fel Cyngor wedi bod yn pwysu ar y Bwrdd Iechyd arno ers nifer o flynyddoedd, ac rydym yn credu ei fod yn gwbl ganolog i unrhyw weledigaeth o iechyd a gofal cymdeithasol wrth symud ymlaen. Nid yw'n cyffwrdd â phwysigrwydd iechyd y cyhoedd a'r agenda ataliol sy'n hollbwysig, eto wrth i ni geisio datblygu'r system yn y blynyddoedd i ddod. Ac nid yw'n sôn dim am recriwtio a chadw staff sef y prif fater sy'n wynebu Bwrdd Iechyd Hywel Dda, fel byrddau iechyd eraill ledled y DU. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Geidwadol y DU wedi llywyddu dros 10 mlynedd o doriadau i wasanaethau cyhoeddus sy'n golygu bod nifer o'n gwasanaethau iechyd ar fin methu. Bu methiant aruthrol i fuddsoddi mewn asedau a phobl yn y gwasanaeth iechyd, fel sydd wedi digwydd ar draws gweddill y sector cyhoeddus dros y ddegawd honno. Yr effaith ar y gwasanaethau iechyd yw bod gennym bobl yn marw ar draws y DU, marwolaethau y mae modd eu hosgoi; pobl yn marw ar droliâu yn yr adran damweiniau ac achosion brys, neu'n waeth byth yn sownd gartref oherwydd bod ambiwlans wedi methu eu cyrraedd. Dyna'r record o ddeng mlynedd o lymder - ac rydym ni'n meddwl tybed pam fod y gwasanaeth iechyd mewn cymaint o lanast? Os ydym am gynyddu a gwella gwasanaethau mewn unrhyw ran o gymdeithas, mae'n rhaid i ni fod yn barod i fuddsoddi ynddynt. Nid yw hynny wedi digwydd dros y degawd diwethaf ac yn gwbl onest mae cwestiwn yn gofyn i ni, fel y Cyngor, a ydym yn credu ei bod yn well lleoli ysbyty posib arfaethedig 5 milltir i'r Dwyrain neu'r Gorllewin – Sanclêr neu Hendy-gwyn - yn methu'r pwynt yn llwyr. Byddwn yn dweud hefyd ei bod yn codi fy ngwrychyn i raddau fod gennym aelodau lleol o'r blaidd Geidwadol yma yn eu cyflwyno eu hunain fel amddiffynwyr y gwasanaethau iechyd ac amddiffynwyr gwasanaethau cyhoeddus fel y cyfryw, pan fo record eich plaid dros y 10 mlynedd diwethaf yn dangos nad ydych chi'n ddim o'r fath. I gyfeirio at eich cwestiwn ynghylch y safle, nid yw'r Cyngor hwn wedi cyflwyno sylwadau i'r Bwrdd Iechyd yn ffurfiol o ran y 3 opsiwn, ond bydd aelodau etholedig yn cael cyfle ar y 4<sup>yd</sup> o Fai 2023 i gael sgwrs uniongyrchol ac i wneud unrhyw sylwadau i'r Bwrdd Iechyd mewn sesiwn sydd wedi'i threfnu'n arbennig. Nid dyma'r un cyntaf, rydym ni wedi cael trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd dros nifer o flynyddoedd wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu, ac yn y sesiynau hynny rydym wedi cael aelodau etholedig y Cyngor hwn yn cyflwyno sylwadau clir iawn, ac yn mynegi pryderon ynghylch y pellteroedd teithio a'r amseroedd maen nhw'n ofni fydd yn cynyddu - yn enwedig i'r aelodau hynny tua dwyrain y sir mewn ardaloedd fel Llanymddyfri, pen uchaf Dyffryn Tywi, aelodau Dyffryn Aman ac yn yr un modd ar gyfer aelodau yng nghornel de-ddwyrain y sir yn Llanelli; a byddwn i'n disgwyl i'r trafodaethau hynny barhau pan fyddwn ni'n siarad â'r Bwrdd Iechyd ar y 4<sup>yd</sup> o Fai. Ond yn amlwg i'r aelodau hynny yng ngorllewin y sir, mae'n bosib y byddan nhw'n fwy bodlon gyda'r cynigion o ran y safleoedd posib yn Sanclêr a Hendy-gwyn. Ond fel y soniais, dyma drafodaethau i aelodau etholedig eu cael gyda'r Bwrdd Iechyd dros yr wythnosau nesaf ac rwy'n disgwyl i'r aelodau ymroi'n llawn i'r broses honno. Rwyf am ddweud yn y cyswllt hwn fy mod ychydig yn bryderus ynghylch yr hyn yr ydym wedi'i weld y bore yma, ac yn yr un modd yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet, sef mewn gwirionedd herwgipio a chamddefnyddio slot cwestiynau'r cyhoedd at ddibenion plaid wleidyddol. Fel rhywun a oedd yn un o'r aelodau oedd yn pwysu am fwy o atebolrwydd gwleidyddol a mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd rhyw 10 mlynedd yn ôl bellach, roedd yr ysgogwyr ar gyfer y ddwy slot hyn

o ran eitemau 4 a 5 sydd gennym o'n blaenau heddiw – cwestiynau gan aelodau a'r cyhoedd – yn ymwneud â mwy o ymgysylltu ac atebolrwydd. Gadewch i mi fod yn glir, rwy'n llwyr ddisgwyl cael fy nal i gyfrif yn wleidyddol gan aelodau'r Cyngor hwn oherwydd dyna yw eu gwaith nhw, maen nhw wedi cael eu hethol i'w wneud ac rwy'n croesawu hynny oherwydd ei fod yn arwain at wneud penderfyniadau gwell yn y tymor hir. Rwyf hefyd yn croesawu cwestiynau gan aelodau cyffredin, dilys o'r cyhoedd sydd am godi pryder gyda'r Awdurdod, oherwydd trwy siarad a chlywed yn uniongyrchol gan drigolion dilys yr ydym yn aml yn adnabod bylchau a dallbwytiau yn ein meddylfryd. Yr hyn nad wyf yn ei groesawu, fodd bynnag, yw bod plaid wleidyddol yn camddefnyddio a herwgipio amser cwestiynau'r cyhoedd, i bob golwg i geisio creu plattform i'w hunain. Nid dyna bwrpas y slot yma, ac mae'n fy nhristáu ein bod wedi cael 3 cwestiwn y bore yma gan aelodau'r blaid Geidwadol, pob un ohonynt wedi ceisio a methu cael eu hethol i'r lle hwn. Gan gyflwyno eu hunain, fel y soniais yn gynharach, fel amddiffynwyr y bobl, amddiffynwyr gwasanaethau cyhoeddus - pan nad ydyn nhw'n ddim o'r fath. Roedd yna etholiad ym mis Mai 2022, lai na blwyddyn yn ôl, a rhoddodd ymgeiswyr Ceidwadol eu hunain ymlaen i gael eu hethol ledled y sir - cawsoch eich gwrthod gan bawb. Ni lwyddodd yr un ymgeisydd o'r Blaid Geidwadol i gael ei ethol i'r lle hwn. Felly, rwy'n ei chael hi'n sarhaus, ar ôl methu argyhoeddi pobl drwy'r blwch pleidleisio, eich bod yn ceisio creu plattform i chi eich hunain drwy gamddefnyddio a herwgipio adran cwestiynau'r cyhoedd. Mae gyda ni bentwr o gwestiynau dibwrpas. Cwestiynau dibwrpas, bas, plaid-wleidyddol sy'n gwastraffu fy amser i, yn gwastraffu amser fy Nghabinet ac yn gwastraffu amser fy swyddogion. Byddwn i'n awgrymu'n barchus nad yw'n mynd â ni gam ymhellach ac os yw aelodau o'r blaid dorïaidd leol am wneud unrhyw gyfraniad at welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, byddwn yn gofyn i chi fynd â'r frwydr at gydweithwyr eich plaid eich hun yma yn Ne-orllewin Cymru ac ar lefel Llywodraeth y DU i sicrhau eu bod yn dechrau unioni camweddau'r 10 mlynedd diwethaf a'r tan-gyllido gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi arwain at eu bod ar fin methu. Dyna'r unig ateb, a dyna'r unig ffordd allan o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus priodol yn y rhan hon o'r byd. Mae'n gywilyddus, yn gwbl gywilyddus, eich bod chi'n ceisio herwgipio slot cwestiynau'r cyhoedd hwn at ddibenion plaid wleidyddol. Os ydych chi eisiau dadl wleidyddol, rwy'n fwy na pharod i gymryd rhan ynndi, ond y ffordd orau o wneud hynny yw argyhoeddi'r etholwyr yn Sir Gaerfyrddin mai chi yw'r bobl orau i'w cynrychioli. Hyd yma nid ydych wedi cael y profiad hynny, ac awgrymaf fod pobl Sir Gâr yn gallu gweld beth rydych chi'n ei wneud, dydyn nhw ddim yn dwp. Eich gwaith chi yw darbwyllo eich cydweithwyr yn y blaid ein bod yn cael digon o gyllid yn Sir Gaerfyrddin i ddarparu gwasanaethau fel yr ydyn ni'n dymuno. Diolch yn fawr”.

### **Cwestiwn atodol gan Charlie Evans:-**

“Gofynnais fy nghwestiwn heddiw fel aelod o'r cyhoedd, a gwnes ei ofyn yn gwrtais iawn ac, yn anffodus, dwi ddim yn credu fy mod i wedi cael y parch sy'n ddyledus yn ôl i mi fel aelod o'r cyhoedd. Rwyf yn talu treth y cyngor fel un o drigolion Sir Gaerfyrddin, a chi'r Cynghorydd Price yw fy nghynghorydd sir felly rwyf braidd yn bryderus nad ydych wedi rhoi i mi, fel un o drigolion y cyhoedd heddiw, yr un lefel o barch ag yr wyf innau'n ei rhoi i chi drwy gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Rwy'n pryderu'n fawr hefyd ei bod yn ymddangos eich bod yn agor y drws i gyfyngu ar aelodau'r cyhoedd rhag gofyn cwestiynau yn seiliedig ar gysylltiad plaid-wleidyddol - ni fydddech yn gwneud hynny i bobl eraill, felly rwy'n pryderu braidd. Mae gennyf hefyd broblem gyda'r modd y gwnaethoch fframio'r cwestiwn a ofynnais gan ddweud ei fod yn 'ddibwrpas', yn 'fas', 'yn brin o ddyfnder' - roedd yn ymddangos fel ffordd o osgoi'r cwestiwn. Fel y gwyddoch, mae unrhyw gynllun ar gyfer ysbyty newydd yn gofyn am gydweithio agos rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Sir, er

enghraifft gyda chynllunio, cysylltiadau â gofal cymdeithasol a llwybrau gwasanaeth bysiau, felly - pa lefel o fewnbwn ffurfiol sydd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, o ystyried y rhyngddibyniaethau hynny, ydych chi wedi'i gael wrth lunio achos busnes y rhaglen gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda”?

### **Ymateb gan y Cyngorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor i'r cwestiwn atodol :-**

“Yn amlwg mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd ar ystod eang o faterion, trwy ystod eang o fforymau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, ceir integreiddio agos drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Iechyd trwy lu o raglenni, fel bod yr ymgysylltu yn gyson a bydd yn parhau.

Roedd fy sylw ynghylch ei fod yn 'ddibwrpas' a 'bas' yn ymwneud â'r ffocws ar os yw'n mynd i fod 5 milltir i'r dwyrain neu'r gorllewin - p'un a fydd yr ysbyty newydd hwn yn cael ei adeiladu yn Sanclêr neu yn Hendy-gwyn, ni fydd hynny'n gwneud dim gwahaniaeth o gwbl i'r materion ehangach y mae'r Gwasanaeth Iechyd yn eu hwynebu - dyna'r pwynt yr oeddwn yn ei wneud. Mae yna faterion llawer mwy sylfaenol y mae angen i ni ymosod arnynt - nid yn unig yn y tymor canolig, ond yn y tymor byr iawn o ran recriwtio staff, tâl ac amodau - yr ydych yn gwbl ymwybodol ohonynt. Mae Llywodraeth y DU wedi methu'n llwyr â delio â hynny. Tybed pam ein bod yn brin o staff - mae miloedd o fylchau yn ein gweithlu Iechyd a gofal cymdeithasol a tybed pam? Maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio, maen nhw'n teimlo nad ydyn nhw'n cael eu talu'n ddigonol ac mae angen datrys hynny - nid yw wedi cael ei ddatrys hyd yma - a dyna oeddwn yn cyfeirio ato wrth sôn am eich cydweithwyr yn y blaid yn Llundain. O ran camddefnyddio slot cwestiynau'r cyhoedd, rwy'n croesawu'n fawr gyfraniadau gan aelodau dilys o'r cyhoedd - dim ond yr wythnos diwethaf yr oedd gyda ni un yn y Cyngor. Dyma lle mae ganddyn nhw brofiad uniongyrchol, profiad byw, lle mae rhywbeth yn effeithio arnyn nhw neu eu cymuned ac maen nhw eisiau gweld rhywbeth yn cael ei wneud.

Yr hyn rydyn ni'n ei weld heddiw yw 3 aelod o'r blaid Geidwadol yn lleol yn rhoi cwestiynau i mewn i gyd gyda'i gilydd. Mae'n gwbl glir i unrhyw un weld nad cyd-ddigwyddiad yw hynny - penderfyniad wedi'i gydlyn gan y blaid Geidwadol i geisio creu plattform oherwydd eu bod wedi methu, yn llwyr, cael cefnogaeth etholiadol gan bobl Sir Gaerfyrddin. Dwi'n gallu ei weld e, gall y Cabinet ei weld e, dwi wedi siarad â nifer o aelodau'r Cyngor yma o bob plaid, ac maen nhw i gyd yn gallu ei weld e a gall pobl Sir Gâr ei weld e. Os oeddech chi wirioneddol eisiau gwybod beth oedd safbwynt Sir Gaerfyrddin ar yr ysbyty newydd, gallech fod wedi anfon e-bost ata i, gallech fod wedi gofyn i mi 'a ydych chi wedi gwneud sylwadau?' a gallen i fod wedi dweud 'na' wrthoch chi - ond nid dyna oeddech chi eisiau. Roeddech chi eisiau dod yma, roeddech chi eisiau cael eich 5 munud o sylw ac roeddech chi eisiau gwneud sioe. Os oeddech chi eisiau ateb gwirioneddol gallech chi fod wedi fy e-bostio, ond nid dyna'r bwriad a dyna sy'n codi fy ngwrychyn. Nid cyfle i gael trafodaeth plaid-wleidyddol yw hyn. Mr Hughes, fel y soniodd Ann Davies, gwnaethoch chi'r pwyntiau gwleidyddol hynny yn y wasg yn dilyn cyfraniad diwethaf y Cabinet a dyna pam rwy'n credu ein bod ni'n anhapus iawn â sut aeth hynny - oherwydd nid yr hyn a ddyfynnwyd gennyh yn y wasg oedd yr hyn a gyflwynwyd yma yn y Cabinet”.

## **6. CYNNYDD Y CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR AMDDIFFYN**

Yn unol â chymeradwyaeth y Cabinet ar 25 Hydref 2021 i'r Cyngor ail-lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog [cofnod rhif 6.1], rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd

yn manylu ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor tuag at gyflawni gwobr arian y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn.

Adolygodd Aelodau'r Cabinet y meini prawf hanfodol ar gyfer y wobr arian yn erbyn statws presennol y Cyngor mewn perthynas â phob gofyniad a oedd yn dangos bod yr holl ofynion wedi'u bodloni; fodd bynnag cydnabuwyd y gallai mabwysiadu'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig wella dull ac ymrwymiad y Cyngor i gyfamod y lluoedd arfog ymhellach.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 Bod cais yn cael ei wneud ar gyfer y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn (DERS) ar Lefel Gwobr Arian.**

**6.2 Bod gwaith yn cael ei wneud tuag at weithredu'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig.**

**7. NODI BOD GRŴP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD LLINOS DAVIES AR Y PANEL RHIANTA A DIOGELU CORFFORAETHOL YN LLE'R CYNGHORYDD HEFIN JONES**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod Grŵp Plaid Cymru wedi enwebu'r Cynghorydd Llinos Davies yn lle'r Cynghorydd Hefin Jones ar y Panel Rhianta Corfforaethol a Diogelu.**

**8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

---

**CHAIR**

---

**DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CABINET****DYDD LLUN, 22 MAI 2023****PRESENNOL** Cyngorydd D. Price (Cadeirydd)**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

C.A. Davies

L.D. Evans

G. Davies

P.M. Hughes

G.H. John

A. Lenny

E.G. Thomas

J. Tremlett

A. Vaughan Owen

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

Y Cyngorydd D.M. Cundy;

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff

J. Jones, Pennaeth Adfywio

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth

C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd

M. Jones, Swyddog Polisi yr Iaith Gymraeg

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00yb - 11.20 yb****1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
C.A. Davies	5.2 Cwestiwn gan Havard Hughes i'r Cyngorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio;	Mae'r Cyngorydd Davies yn berchen ar dir sy'n croesi Llwybr Dyffryn Tywi.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALWYD AR 24AIN EBRILL 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 yn gofnod cywir.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd fod dau o gwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**5.1. CWESTIWN GAN CHARLIE EVANS I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR**

"O dan gynlluniau ar gyfer yr Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i gynllunio newydd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhagweld y bydd 68% o weithlu Ysbyty Cyffredinol Glangwili yn cael ei drosglwyddo i'r ysbyty newydd. Mae hyn yn cyfateb i 2,625 aelod o staff, yn seiliedig ar niferoedd 2022. Ysbyty Glangwili yw un o gyflogwyr mwyaf Caerfyrddin. O ystyried bod gan y Cyngor gyfrifoldebau dros ein trefi, pa effaith ydych chi'n credu y bydd hyn yn ei chael ar dref Caerfyrddin?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor:-**

"Diolch Mr. Evans. Fel y gwyddoch, y Bwrdd Iechyd fydd yn penderfynu ynghylch ailstrwythuro gofal ysbyty yn Ne-orllewin Cymru wrth gwrs, ac, yn y pen draw, os caiff ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Mae'n glir bod gennych ddiddordeb amlwg yn y mater hwn, a byddwn yn awgrymu efallai ei fod yn werth i chi gysylltu'n uniongyrchol â'r Bwrdd Iechyd yn ei gylch.

Fodd bynnag, mae hwn yn fater sy'n amlwg o ddiddordeb i'r boblogaeth leol, gan fod Glangwili wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn rhan bwysig o wead y dref. Yn wir mae aelodau etholedig lleol yng Nghaerfyrddin wedi ymgyrchu ers tro i gadw a datblygu Ysbyty Glangwili - a dweud y gwir, lansiwyd ac arweiniwyd yr ymgyrch i wneud hynny gan gynghorwyr lleol Plaid Cymru yn y dref - dau sydd bellach yn aelodau Cabinet ac sy'n eistedd yn y siambr y bore 'ma.

Pan dorrodd y newyddion am y bwriad i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysbyty ym mis Mawrth 2018, galwodd y Cynghorydd Alun Lenny, Maer y Dref ar y pryd, gyfarfod cyhoeddus a threfnu deiseb ar-lein a ddenodd dros 5,000 o enwau mewn byr iawn o amser. Cefnogwyd hyn gan bob plaid ar y Cyngor Tref, a oedd dan arweiniad Plaid.

Cafodd y Cynghorydd Gareth John y dasg wedyn gan grŵp Plaid Cymru ar y cyngor sir i baratoi ymateb manwl i'r ymgyngoriad gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda ynghylch trawsnewid gwasanaethau clinigol. O ganlyniad, ym mis Mehefin 2018, cyflwynwyd ymateb manwl 14 tudalen i'r Bwrdd. Wrth ddadlau achos Glangwili, tynnodd sylw at y ffaith bod bron i hanner (48%) poblogaeth ardal y Bwrdd Iechyd yn byw yn Sir Gaerfyrddin, a bod Glangwili wedi'i leoli'n agos iawn i ganol y sir.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf



Yn wir, y llynedd galwodd cynghorwyr tref Plaid Cymru yng Nghaerfyrddin a'r Aelod o'r Senedd Adam Price ar y Bwrdd Iechyd i amddiffyn gwasanaethau a'r ddarpariaeth damweiniau ac achosion brys yng Nglangwili, fel rhan o unrhyw ad-drefnu gofal iechyd yn Ne-orllewin Cymru.

Fodd bynnag, fel y gwyddoch, rydym bellach mewn sefyllfa lle mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried 3 safle y tu allan i dref Caerfyrddin ar gyfer yr ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd, serch bod y safleoedd arfaethedig o fewn ffiniau'r sir.

Rwy'n deall bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud gwaith pellach (a'i fod yn bwriadu gwneud hynny) i ddeall yn well effaith economaidd ei newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth ysbyty fel rhan o broses yr achos busnes, ac rydym yn hapus i gefnogi'r gwaith hwnnw.

Fodd bynnag, fy awgrym yw eich bod yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd ynghylch y broses achos busnes mae'n ei wynebu, ond yn amlwg, prif ffocws y Bwrdd Iechyd yw darparu gwasanaethau clinigol.

Mae'n bwysig nodi, yn ystod sesiwn ymgynghorol ddiweddar, fod aelodau etholedig o bob rhan o'r sir wedi gallu codi materion gyda'r Bwrdd Iechyd Gwladol ynghylch y newidiadau arfaethedig. Mae'n amlwg bod cwestiynau o ran trafnidiaeth, tai a chyfleoedd a bygythiadau economaidd rydym yn awyddus i roi sylw iddynt.

Fodd bynnag, rwy'n credu bod modelu unrhyw effaith economaidd, ar dref Caerfyrddin yn benodol, gydag unrhyw sicrwydd yn mynd i fod yn anodd, gan y bydd llawer o'r dadansoddi'n dibynnu ar geisio deall ble mae staff byrddau iechyd yn byw ar hyn o bryd, ble bydd gweithlu'r dyfodol ymhen 5 neu 10 mlynedd yn byw, patrymau cymudo, arferion siopa a gwario gweithwyr unigol a lluo o ffactorau eraill, sy'n anodd iawn eu clustnodi heb gyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol cadarn – a fydd wrth gwrs yn newid dros amser.

Fel rydych yn gwybod, mae canol tref Caerfyrddin yn bwysig iawn i'r Cyngor Sir. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yn unig yw Caerfyrddin na threfi a phentrefi eraill. Yn wir, mae pob tref yn gyfuniad o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys y sector busnes, y sector gwirfoddol, y cyngor tref ac ystod o gyrff cyhoeddus fel y Bwrdd Iechyd Lleol, y Brifysgol, yr awdurdod lleol, ysgolion a cholegau, ac mae pob anheddiad yn wahanol.

Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd Canol Tref Caerfyrddin ac wrth gwrs yn buddsoddi adnoddau er mwyn cydweithio, er mwyn uno rhanddeiliaid ac adnoddau i wneud Caerfyrddin mor llwyddiannus â phosibl, a beth bynnag yw'r penderfyniad terfynol ar y ddarpariaeth ysbyty yn Ne-orllewin Cymru yn y dyfodol, bydd y gwaith hwnnw'n parhau."

#### **Cwestiwn atodol gan Mr. Charlie Evans:-**

"Ai safbwynt y Cabinet ar hyn o bryd yw y dylai Ysbyty Glangwili fod yn ysbyty cyffredinol neu'n ysbyty cymunedol fel yw bwriad y Bwrdd Iechyd."

#### **Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor, i'r cwestiwn atodol :-**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

“Fel y soniais yn fy ateb i'r cwestiwn cyntaf, cafodd aelodau o bob rhan o'r siambr, boed yn aelodau Cabinet neu beidio, gyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Bwrdd lechyd fis diwethaf ar y cynlluniau. Fel y gwyddoch, nid yw'r Cyngor fel corff corfforaethol wedi cyflwyno sylwadau ffurfiol ar y safleoedd arfaethedig mae'r Bwrdd lechyd yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Fel y nodais yn yr ateb cychwynnol, roedd fy mhlaid i, a gallaf siarad ar ran Plaid Cymru, yn sicr o'r farn y dylid amddiffyn Glangwili yn ei ffurf bresennol a'i ddatblygu fel lleoliad aciwt gyda gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys yn rhan annatod o hynny. Ond fel y soniais, mae pethau wedi symud ymlaen ers hynny ac mae'r Bwrdd lechyd wedi penderfynu, nid ein lle ni yw penderfynu, mai'r tri safle yr ymgynghorir yn eu cylch ar hyn o bryd yw'r opsiynau a ffefrir o safbwynt y Bwrdd a byddwn i'n annog y cyhoedd i gyfrannu i'r broses honno. Ond yn amlwg, yn y pen draw penderfyniad i'r Bwrdd lechyd ac nid y Cyngor Sir yw hwn. Fel aelod sy'n byw yn nwyrain y sir yng Ngors-las, yn amlwg hoffwn i weld yr holl wasanaethau'n cael eu darparu mor agos â phosibl at fy stepen drws a dyna'n sicr oedd y farn a fynegwyd i'r Bwrdd lechyd yn y sesiwn a gawsom ychydig wythnosau yn ôl. Fel y crybwyllais i chi yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet, mae gan aelodau dwyrain y sir, ac ardaloedd fel Llanelli, bryderon clir ynghylch amserau cyrraedd, p'un a fydd yr ysbyty newydd yn Hendy-gwyn ar Daf neu Sanclêr. Ond ar yr un pryd, rwy'n ymwybodol o'm sgysiau gyda chydweithwyr yn Sir Benfro fod pryderon tebyg ar ochr orllewinol y sir honno. Wrth siarad â chynrychiolwyr yn ardal Abergwaun a Thyddewi, mae'n amlwg bod pryderon fan honno y bydd unrhyw symudiad i'r dwyrain tuag at Gaerfyrddin yn cael effaith ar amserau cyrraedd yn yr ardaloedd hynny. Felly, rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig yw'r hanes ac fel y soniais mae hyn wedi bod yn drafodaeth ac yn ymgyrch barhaus ers dros 5 mlynedd bellach, ac rwy'n sylweddoli bod eich cwestiynau wedi dod i mewn i'r Cabinet dros y 2 fis diwethaf, ond mae nifer o aelodau yn y siambr hon a thu allan i'r siambr wedi bod yn ymgyrchu ar hyn ers cryn amser. Mae'r syniad y gall Glangwili ddarparu gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys llawn a chynnal y gwasanaethau mae'n eu darparu ar hyn o bryd wedi mynd oherwydd nid yw'r Bwrdd lechyd wedi darparu'r opsiwn hwnnw. O'm safbwynt i, yr hyn sy'n allweddol yma yw ein bod yn ceisio diogelu cymaint o wasanaethau ag y gallwn ni yn lleol a sicrhau bod mynediad diogel i wasanaethau i bobl Sir Gaerfyrddin. Yn y cyflwyniad a roddwyd gan y Bwrdd lechyd, roedd y strategaeth mae'n ei chynnig ar hyn o bryd wedi'i llunio gan glinigwyr a gwn fod y Blaid Doriaidd yn awyddus i sicrhau bod pobl broffesiynol, boed yn athrawon neu'n feddygon a nyrsys, ar flaen y gad o ran hynny ac yn arwain newid o fewn eu sectorau penodol, a dyna'r neges gref gan y Bwrdd lechyd, sef bod y Cynllun hwn wedi ei seilio ar angen clinigol ac wedi cael ei gyflwyno gan glinigwyr, ac rwy'n credu bod rheidrwydd arnom ni i gyd i ystyried hynny a cheisio prosesu'r wybodaeth honno a gwneud synnwyr o ran goblygiadau hynny wedyn i wasanaethau ledled y sir. Ond fel rwyf wedi crybwyll sawl tro wrthy, gan mai penderfyniad Bwrdd lechyd yw hwn, awgrymaf yn barchus eich bod yn ymgysylltu â'r Bwrdd lechyd ar y mater hwn ac rwy'n siŵr bydd y Bwrdd yn fwy na pharod i wneud hynny.”

## **5.2. CWESTIWN GAN HARVARD HUGHES I'R CYNGHORYDD ANN DAVIES, YR AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

[SYLWER: Roedd y Cyngorydd C.A. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

“Yn ei ymateb fel ymgynghorwr statudol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn tynnu sylw at y risg 'y byddai llifogydd yn effeithio ar rannau sylweddol o lwybr Beicio Dyffryn Tywi' ac mae'n gofyn am Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Pryd fydd hyn yn cael ei gwblhau ac ar gael i'r cyhoedd?”

**Ymateb gan y Cyngorydd Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio :-**

“Rwyf eisoes wedi datgan buddiant yn yr eitem hon gan fy mod yn ffermio ac yn berchen ar dir ar hyd Dyffryn Tywi, ac felly mae gen i fuddiant personol ym Mhrosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. Rwyf heb ofyn am ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau gan fy mod yn teimlo fy mod yn rhy agos i'r llwybr sy'n mynd yn uniongyrchol drwy ein tir. Rwy'n gadael y siambr neu unrhyw bwyllgor pan caiff y prosiect hwn ei drafod, ac ni fyddaf yn gadael heddiw gan na ellir cael trafodaeth ar y mater oherwydd fy muddiant. Ond gallaf ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cwestiwn a rhoi gwybod i chi fod eich cwestiwn wedi'i gyfeirio i'r adran berthnasol a fydd yn ymateb i chi'n ysgrifenedig. Ond ni allaf drafod y mater hwn. Diolch yn fawr.”

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**6. CYFLWYNO DEISEB**

Gan gyfeirio at gofnod 9 o gyfarfod y Cyngor ar 10 Mai 2023, croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod Mrs. Katherine Start a oedd wedi cael gwahoddiad i gyflwyno'r ddeiseb ganlynol ynghylch toiledau yn Harbwr Porth Tywyn ac i annerch y Cabinet yn ei chylch:

“Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin weithredu ar unwaith i gynllunio, i ariannu ac i adeiladu toiledau yn nwyrain Harbwr Porth Tywyn ac yng ngorllewin Harbwr Porth Tywyn. Deiseb i unioni'r diffyg toiledau cyhoeddus digonol a hygyrch yn Harbwr Porth Tywyn.”

Amlinellodd Mrs. Start i'r Cyngor y rhesymeg dros y ddeiseb.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth y byddai'r adran yn ymchwilio i'r materion a godwyd yn y ddeiseb ac yna byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Gabinet y Cyngor yn y dyfodol.

Yn dilyn y cyflwyniad, trosglwyddodd Mrs. Start y ddeiseb yn ffurfiol i'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y ddeiseb a chyflwyno adroddiad am y materion a godwyd i'r Cabinet maes o law.**

**7. POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO EIDDO**

Gan gyfeirio at gofnod 9.1 o gyfarfod y Cyngor ar 28 Medi 2022, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad ar y sylwadau oedd wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori dilynol ar y Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo. Roedd chwe

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

ymateb/sylw wedi dod i law fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a dywedwyd nad oedd yr un ohonynt wedi gofyn am welliant penodol i'r Polisi drafft, ac felly argymhellwyd mabwysiadu hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR y dylid mabwysiadu'r Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo drafft.**

**8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 28 Chwefror 2023, o ran 2022/2023. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £6.159k ac yn rhagweld gorwariant o £470k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod. Ar lefel uchel, roedd hyn o ganlyniad i gyfuniad o'r canlynol:

- setliadau cyflog a drafodir yn genedlaethol (heb eu penderfynu hyd yn hyn) ar lefelau llawer uwch na'r hyn a gyllidebwyd, ac nid oedd y llywodraeth wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer hyn;
- gorwariant mewn meysydd gwasanaeth o achos galw cynyddol ynghyd â llai o gyllid grant o gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn enwedig yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu a Phlant;
- gostyngiad parhaus mewn incwm masnachol, gan gynnwys meysydd parcio, canolfannau hamdden a phrydau ysgol;
- tanwariant cyllido cyfalaf oherwydd oedi o ran y cynllun a llai o angen i fenthyca.

Rhagwelwyd byddai tanwariant o £850k ar gyfer 2022/23 o ran y Cyfrif Refeniw Tai. Byddai hyn yn cael ei adolygu wrth i'r materion sylweddol a nodwyd ddod yn gliriach o safbwynt ariannol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 Derbyn adroddiad Monitro'r Gyllideb, a nodi'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol a gymerwyd;**

**8.2 O ran gorwariant sylweddol ar feysydd penodol o'r gyllideb, bydd y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'n feirniadol yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r effaith barhaus.**

**9. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2022/23**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad a oedd yn amlinellu'r sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf ar gyfer rhaglen gyfalaf 2022/23, fel yr oedd ar 28 Chwefror 2023 gan fanylu ar y prosiectau newydd i'w nodi a'u cymeradwyo gan y Cabinet.

Fel rhan o gylch monitro mis Rhagfyr roedd £56,878k wedi cael ei drosglwyddo i'r blynyddoedd i ddod ac wedi'i gynnwys yn Rhaglen Gyfalaf newydd 2023-2028, a olygai bod cyllideb waith y gronfa gyffredinol yn agosach i'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Nid yw'r cyllidebau Cyfrif Refeniw Tai yn newid.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Yn adrannol rhagwelwyd gwariant net o £54,673k o gymharu â chyllideb net weithredol o £93,787k gan roi £39,115k o amrywiant.

Roedd rhai cyllidebau wedi cael eu diwygio yn unol â'r gwahaniaethau yn y dyraniadau grant gwirioneddol o gymharu â'r dyraniadau disgwylidig pan gafodd y rhaglen ei chymeradwyo, a grantiau newydd oedd wedi dod i law yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn.

Nodwyd bod Atodiad B yn manylu ar y prif amrywiannau ym mhob adran.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 bod yr adroddiad ar ddiweddaru'r rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn;**

**9.2. bod y prosiectau newydd, fel yr oeddent yn yr adroddiad, yn cael eu nodi a'u cytuno.**

### **10. STRATEGAETH HYBU 2023-28**

Ystyriodd y Cabinet Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg arfaethedig 2023-28 y bu'n ofynnol i'r Cyngor ei llunio a'i chyhoeddi yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Roedd y strategaeth 5 mlynedd yn nodi sut bwriadai'r Cyngor hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn Sir Gaerfyrddin.

Diolchwyd i Fforwm Strategol y Gymraeg y Sir, sef prif gyfrwng cynllunio'r Strategaeth yn ogystal â chraffu arni, am ei gyfraniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg arfaethedig 2023-28 i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ar draws Sir Gaerfyrddin.**

### **11. POLISI AR DDYFARNU GRANTIAU A'R IAITH GYMRAEG**

Bu'r Cabinet yn ystyried Polisi arfaethedig ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg i'r Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb ar draws cynlluniau grant. Roedd y Polisi wedi cael ei baratoi er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011). Roedd hysbysiad cydymffurfio Cyngor Sir Caerfyrddin yn nodi bod yn rhaid iddo 'lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau' sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried pa effaith fydd dyfarnu grant yn ei chael ar 'gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg', a 'pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'. Roedd y Polisi yn manylu ar ymrwymiad y Cyngor i roi Grantiau yn unol â'r Safonau ac yn esbonio'r ffordd y byddai'r Cyngor yn trosglwyddo'r dyletswyddau hyn i'r ymgeiswyr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi arfaethedig ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg.**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

## **12. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2023-2028**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol arfaethedig 2023-2028 a'i ddiben oedd dal ar lefel uchel oblygiadau asedau materion eiddo oedd gan wasanaethau a achoswyd gan wahanol ffactorau megis newidiadau mewn agendâu lleol a chenedlaethol, pwysau ariannol a newidiadau i anghenion cleientiaid. Lle bo'n briodol, roedd gofynion eiddo manwl amrywiol wasanaethau wedi eu cofnodi yng Nghynlluniau Rheoli Asedau y Gwasanaeth. Roedd y Cynllun hefyd yn rhoi trosolwg o bortffolio asedau'r Cyngor nad ydynt yn ymwneud â thai o ran costau rhedeg, cynaliadwyedd a phroblemau cynnal a chadw, gan arwain at gynllun gweithredu i gwmpasu'r cynlluniau o sylwedd sy'n gysylltiedig ag eiddo.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Crynodeb a Chynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028.**

## **13. BEICIO I'R GWAITH A BENTHYCIADAU I BRYNU CEIR**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad a roddai ddiweddariad yn dilyn adolygiad o gynllun presennol yr Awdurdod o ran Beicio i'r Gwaith a Benthyciadau i Brynu Ceir.

Roedd y Cynllun Beicio i'r Gwaith wedi'i sefydlu 11 mlynedd yn ôl a bernid ei fod wedi dyddio bellach. Roedd technoleg well yn y diwydiant beicio nid yn unig wedi arwain at gostau prynu uwch ar gyfer beiciau ffordd traddodiadol ond roedd yr opsiwn i brynu beiciau trydan newydd hefyd yn fwy deniadol.

Roedd y cynllun Benthyciadau i Brynu Ceir (Cymorth â Phrynu Car) wedi bod ar waith ers 1998. Roedd wedi'i gynnwys yn Amodau Gwasanaeth y Cyngor a byddai angen ymgynghori â'r Undebau Llafur cydnabyddedig ar unrhyw newid i'r cynllun presennol neu unrhyw fwiad i gael gwared arno.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 cynyddu'r terfyn ar gyfer prynu beiciau ac ategolion o dan y Cynllun Beicio i'r Gwaith o £1,000 i £3,500;**

**13.2 ymestyn cyfnod y cytundeb o dan y Cynllun Beicio i'r Gwaith o'r 12 mis presennol i 24 mis ar gyfer pryniannau o fwy na £1,000;**

**13.3 oherwydd costau a chwyddiant cynyddol, bydd uchafswm y benthyciad ymlaen llaw o dan y cynllun benthyciadau i brynu ceir yn cynyddu o £7,350.00 i £9,999.00 o 1 Gorffennaf 2023.**

## **14. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYN YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**15. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoeddadael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

**16. LLAIN 1 PARC ADWERTHU TROSTRE, LLANELLI**

Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 15 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon yn anfantais faterol i'r awdurdod mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon, a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.

Gan gyfeirio at gofnod 10 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 16 Rhagfyr 2019, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar geisiadau gan ddatblygwr y safle uchod i

- ymestyn y cytundeb tir am gyfnod pellach o 12 mis;
- ystyried gostyngiad pellach yn y pris prynu i adlewyrchu costau annormal eithriadol annisgwyl;
- cynnwys darn pellach o dir o fewn ardal y brydles i fynd i'r afael â materion ecolegol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** beidio ag ystyried y cais am ostwng y pris prynu.

---

**CADEIRYDD**

---

**Y DDYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol